

TGAU



# TGAU CBAC TECHNOLEG DDIGIDOL

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

## MANYLEB

I'w haddysgu o 2021  
I'w ddyfarnu o 2023



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.



# CBAC TGAU mewn TECHNOLEG DDIGIDOL

## I'w haddysgu o 2021 I'w dyfarnu o 2023

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer Cymwysterau TGAU sy'n nodi'r gofynion ar gyfer yr holl fanylebau TGAU newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w dysgu yng Nghymru o fis Medi 2017.
- Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Technoleg Ddigidol sy'n nodi'r gofynion ar gyfer yr holl gymwysterau yn y pwnc hwn i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2021.

	<b>Tudalen</b>
<b>Crynodeb o'r asesu</b>	<b>2</b>
<b>1. Rhagarweiniad</b>	<b>3</b>
1.1 Nodau ac Amcanion	3
1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant	4
1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg	4
1.4 Bagloriaeth Cymru	5
1.5 Persbectif Cymreig	5
<b>2. Cynnwys y pwnc</b>	<b>6</b>
2.1 Uned 1	6
2.2 Uned 2	16
2.3 Uned 3	21
<b>3. Asesu</b>	<b>26</b>
3.1 Amcanion asesu a phwysoli	26
3.2 Trefniadau ar gyfer asesiadau di-arholiad	27
<b>4. Gwybodaeth dechnegol</b>	<b>31</b>
4.1 Cofrestru	31
4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl	31
<b>Atodiad A</b>	<b>32</b>
<b>Atodiad B</b>	<b>50</b>

# TGAU TECHNOLEG DDIGIDOL (Cymru)

## CRYNODEB O'R ASESU

### Uned 1: Y byd digidol

Arholiad ar-sgrin: 1 awr 30 munud

40% o'r cymhwyster

80 marc

Asesiad (a wneir ar sgrin) sy'n cynnwys amrywiol fathau o gwestiynau er mwyn asesu cynnwys y fanyleb sy'n ymwneud â systemau technoleg ddigidol, gwerth technoleg ddigidol a safbwyntiau ar dechnoleg ddigidol.

Mae pob cwestiwn yn orfodol.

### Uned 2: Arferion digidol

Asesiad di-arholiad: 45 awr

40% o'r cymhwyster

80 marc

Asesiad di-arholiad yn cynnwys dwy adran. Yn Adran A, bydd ymgeiswyr yn holi set ddata a fydd wedi'i darparu ac wedi'i mewnfario i daenlen er mwyn gallu cwblhau Adran B, lle y byddant yn creu gwefan sy'n ymgorffori naill ai animeiddiad neu gêm sy'n gysylltiedig â chyd-destun penodol.

### Uned 3: Cyfathrebu yn y byd digidol

Asesiad di-arholiad: 15 awr

20% o'r cymhwyster

60 marc

Asesiad di-arholiad yn canolbwyntio ar farchnata asedau digidol gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Bydd ymgeiswyr yn creu asedau digidol sy'n gysylltiedig â chyd-destun penodol ac yna'n llunio ymgyrch cyfathrebu digidol ar-lein mewn perthynas â nhw.

Cymhwyster di-haen yw'r cymhwyster llinol hwn. Bydd ar gael yn ystod cyfres yr haf bob blwyddyn. Asesir Uned 1, Uned 2 ac Uned 3 am y tro cyntaf yn 2023 a dyfernir y cymhwyster am y tro cyntaf yn haf 2023.

Mae'r tabl isod yn dangos y llwybr tuag at gymhwyster TGAU Technoleg Ddigidol.

Uned 1 o 2023	Uned 2 o 2023	Uned 3 o 2023
✓	✓	✓

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/4040/5

# TGAU TECHNOLEG DDIGIDOL

## 1 RHAGARWEINIAD

### 1.1 Nodau ac Amcanion

Mae cymhwyster TGAU CBAC mewn Technoleg Ddigidol yn gymhwyster eang sy'n galluogi dysgwyr i adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r dealltwriaeth ddigidol a ddefnyddir yn eu bywydau yn yr ysgol a'u bywydau bob dydd. Mae'r cymhwyster wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno dechrau ar eu taith tuag at yrfa sy'n defnyddio technolegau digidol neu symud ymlaen at raglenni dysgu lefel uwch sy'n cynnwys technolegau digidol.

Bydd y cymhwyster yn galluogi dysgwyr i feithrin eu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o systemau technoleg ddigidol a ddefnyddir yn ein cymdeithas gysylltiedig a byd-eang. Bydd hefyd yn galluogi dysgwyr i archwilio natur ddatblygol systemau technoleg ddigidol a sut y gellir defnyddio'r systemau hyn mewn ffordd gynhyrchiol, greadigol a diogel.

Bydd manyleb TGAU CBAC mewn Technoleg Ddigidol yn galluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- dod yn annibynnol, yn hyderus ac yn wybodus wrth ddefnyddio technolegau digidol newydd, technolegau sy'n bodoli eisoes a thechnolegau datblygol
- meithrin gwybodaeth am wahanol systemau technoleg ddigidol a ddefnyddir mewn amrywiaeth o sectorau galwedigaethol
- deall effaith bosibl technolegau digidol ar unigolion a chymdeithas ehangach a'r ffyrdd y gallant arwain at newid
- meithrin sgiliau wrth drefnu a dadansoddi data er mwyn adnabod tueddiadau a chynulleidfaoedd
- dod yn wneuthurwyr cynhyrchion digidol, mewn amrywiaeth o fformatau ac at amrywiaeth o bwrpasau, sy'n bodloni anghenion penodol a dilys
- meithrin sgiliau trosglwyddadwy wrth ddefnyddio amrywiaeth o galedwedd a meddalwedd
- meithrin eu dealltwriaeth o gylchred oes datblygu systemau a'r ffordd y gall syniadau ddod yn gynhyrchiol.

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon. Yr ysgol/coleg sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad at gwrs sy'n seiliedig ar y fanyleb hon.

Mae'r fanyleb hon yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Technoleg Ddigidol naill ai ar lefel UG neu ar lefel Safon Uwch.

Mae'r fanyleb hon yn darparu cwrs astudio cydlynol, boddhaus a gwerthfawr i ddysgwyr nad ydynt yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach. Yn ogystal, bydd dysgwyr yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch amrywiaeth eang o lwybrau gyrfa.

## 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

Y nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw oedran, anabled, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau amrywiaeth eang o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau ([www.icq.org.uk](http://www.icq.org.uk)). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

## 1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy'r Dystysgrif Her Sgiliau sy'n rhan o Fagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigrwydd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

## 1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, rhaid i ddysgwyr ystyried persbectif Cymreig os ceir cyfle naturiol i wneud hynny fel rhan o'r deunydd pwnc ac os byddai ei gynnwys yn cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u hamgylch fel dinasyddion Cymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

## 2 CYNNWYS Y PWNC

Llunnir cynnwys y pwnc a gofynion yr asesiad i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau priodol sy'n eang ym maes technoleg ddigidol.

Cyflwynir cynnwys y pwnc mewn tair uned ac mae pob un wedi'i hisrannu yn feysydd testun clir a phenodol. Ym mhob maes testun mae'r wybodaeth, dealltwriaeth a'r sgiliau yn cael eu nodi mewn trosolwg cychwynol ac yna mewn dwy golofn. Mae'r golofn ar y chwith yn nodi'r cynnwys sydd i'w astudio. Mae'r golofn ar y dde yn darparu ymhelaethiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y dylai dysgwyr eu datblygu yn y maes hwn. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy golofn yn rhoi cynnwys llawn y fanyleb. Ni awgrymir unrhyw hierarchaeth gan drefn cyflwyno'r cynnwys, ac nid yw'r drefn yn awgrymu trefn addysgu benodol.

Mae'r ymhelaethiad a ddarperir yn y golofn ar y dde yn cynnwys yr holl gynnwys sy'n cael ei asesu ar gyfer yr adran berthnasol, oni bai ei fod yn nodi 'e.e.', 'gan gynnwys' neu 'megis'. Yn yr achosion hyn, bydd yr ymhelaethiad yn rhestru cynnwys perthnasol y dylid ei drafod ymhellach mewn ffordd briodol, gan ystyried anghenion a diddordebau dysgwyr.

### 2.1 Uned 1

#### Y byd digidol

Arholiad ar-sgrin: 1 awr 30 munud  
40% o'r cymhwyster  
80 marc

Rhaid cynnal yr arholiad yn unol â'r ddogfen *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau* sydd ar gael yn [www.jcq.org.uk](http://www.jcq.org.uk) (ac ar gael yn Gymraeg ar wefan CBAC).

#### Trosolwg o'r uned

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:

- systemau technoleg ddigidol
- gwerth technoleg ddigidol
- safbwyntiau ar dechnoleg ddigidol.

#### Meysydd cynnwys

Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o chwe maes y cynnwys a nodir ar dudalennau 7 i 16.

2.1.1	Data
2.1.2	Systemau technoleg ddigidol
2.1.3	Cyfathrebu Digidol
2.1.4	Effaith systemau digidol ar sefydliadau ac unigolion
2.1.5	Diogelu data a systemau
2.1.6	Technolegau digidol sy'n newid

## 2.1.1 Data

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- data analog a data digidol
- mesur a storio data.

Cynnwys		Ymhelaethiad
(a)	Data analog a data digidol	<p>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• beth yw ystyr data analog</li> <li>• beth yw ystyr data digidol</li> <li>• dyfeisiau analog a dyfeisiau digidol</li> <li>• y berthynas rhwng data analog a data digidol.</li> </ul> <p>Dylai dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• allu esbonio prif egwyddorion trawsnewid o analog i ddigidol mewn perthynas â recordio, samplu a storio sain a golau.</li> <li>• deall manteision ac anfanteision storio data'n ddigidol, mewn perthynas â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• adalw data</li> <li>• effeithlonrwydd</li> <li>• gwarchodaeth</li> <li>• hygyrchedd</li> <li>• y gallu i dyfu yn unol â'r anghenion</li> <li>• colli ansawdd o ganlyniad i samplu</li> <li>• cost</li> <li>• rheoli</li> </ul> </li> <li>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd mae delweddau yn cael eu storio'n ddigidol yn nhermau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• picseli</li> <li>• cydraniad</li> <li>• graffigau fector a didfap</li> <li>• ffeiliau delweddau symudol</li> <li>• technegau cywasgu.</li> </ul> </li> </ul>
(b)	Mesur a storio data	<p>Dylai dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ddeall mai dim ond digidau deuaidd y gall systemau cyfrifiadurol eu storio a'u prosesu</li> <li>• gallu disgrifio'r berthynas rhwng unedau storio data deuaidd</li> <li>• deall ac adnabod y cyfryngau storio canlynol a'r ffyrdd maen nhw'n cael eu defnyddio: <ul style="list-style-type: none"> <li>• magnetig</li> <li>• optegol</li> <li>• cwmwl</li> <li>• cyflwr solid.</li> </ul> </li> </ul>



### 2.1.2 Systemau technoleg ddigidol

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- dyfeisiau digidol a dulliau rhyngweithio a chysylltu
- nodweddion systemau gweithredu
- mathau o feddalwedd a'u swyddogaethau
- gwneud copïau wrth gefn o ddata
- gwasanaethau cwmwl
- cylchred oes datblygu systemau.

Cynnwys		Ymhelaethiad
(a)	<p>Dyfeisiau digidol a dulliau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• rhyngweithio</li> <li>• cysylltu</li> </ul>	<p>Dylai dysgwyr ddeall y ffyrdd canlynol y gall defnyddwyr rhyngweithio â dyfeisiau digidol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• lleferydd</li> <li>• bysellfwrdd/llygoden draddodiadol</li> <li>• ystum</li> <li>• cyffwrdd</li> <li>• Rhithrealiti (VR)</li> <li>• Realiti Estynedig (AR)</li> <li>• biometreg.</li> </ul> <p>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mai rhwydwaith cyfathrebu byd-eang sy'n defnyddio cyfrifiaduron cydgysylltiedig yw'r Rhyngrwyd</li> <li>• bod isadeiledd y Rhyngrwyd yn cynnwys cleientiaid, gweinyddion a llwybryddion</li> <li>• beth yw Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd (ISP: Internet Service Provider) a'i rôl</li> <li>• sut mae peiriant chwilio yn gweithio</li> <li>• mai casgliad o wybodaeth sy'n cael ei ddal ar y Rhyngrwyd yw'r We Fyd-eang (WWW: World Wide Web)</li> <li>• sut mae gweinydd gwe yn gweithio</li> <li>• rôl a strwythur Lleolyddion Adnoddau Unffurf (URL: Uniform Resource Locators)</li> <li>• sut y bydd porwyr gwe yn gwneud cais am gael mynd i wefannau ac yn arddangos y gwefannau hynny.</li> </ul> <p>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r dulliau cysylltu canlynol ar gyfer dyfeisiau sy'n gallu cysylltu â'r rhyngrwyd, a'r manteision a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â phob un ohonynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• band llydan</li> <li>• lloeren</li> <li>• ffibr</li> <li>• cyfathrebu symudol – 4G/5G</li> <li>• Wi-Fi – 802.11</li> <li>• Bluetooth</li> <li>• Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS).</li> </ul>

Cynnwys		Ymhelaethiad
(b)	Nodweddion systemau gweithredu	<p>Dylai dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>ddeall pwrpas a swyddogaeth system weithredu</li> <li>gallu disgrifio nodweddion canlynol system weithredu: <ul style="list-style-type: none"> <li>rheoli adnoddau</li> <li>rheoli perifferolion gan gynnwys dyfeisiau mewnbynnu ac allbynnu</li> <li>sbwlio</li> <li>rheoli cof</li> <li>rheoli prosesau</li> <li>rheoli gwarchodaeth</li> <li>darparu rhyngwyneb defnyddiwr.</li> </ul> </li> <li>deall ffyrdd o ddefnyddio Rhyngwynebau Cyfrifiadur-Dyn (HCIs: Human Computer Interfaces) a manteision ac anfanteision yr HCI <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhyngwyneb Llinell Orchymyn (CLI: Command Line Interface)</li> <li>Rhyngwyneb Defnyddiwr Graffigol (GUI: Graphical User Interface)</li> <li>Rhyngwyneb Sensitif i Gyffyrddiad (TSI: Touch Sensitive Interface)</li> <li>rhyngwyneb wedi'i yrru gan ddewislenni</li> <li>biometreg</li> <li>rhyngwyneb wedi'i yrru gan lais.</li> </ul> </li> </ul>
(c)	Mathau o feddalwedd a'u swyddogaethau	<p>Dylai dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>fod yn ymwybodol o'r gwahanol fathau canlynol o feddalwedd a'u pwrpasau: <ul style="list-style-type: none"> <li>meddalwedd rhaglenni</li> <li>meddalwedd ar archeb wedi'i hysgrifennu at bwrpasau penodol</li> <li>rheoli prosesau</li> </ul> </li> <li>deall pwrpas y rhaglenni cyfleustodau canlynol a sut maen nhw'n cael eu defnyddio: <ul style="list-style-type: none"> <li>amserlennu tasgau</li> <li>meddalwedd wrthfyrssau a'i swyddogaethau.</li> </ul> </li> </ul>

Cynnwys		Ymhelaethiad
(ch)	Gwneud copïau wrth gefn o ddata	<p>Dylai dysgwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>ddeall pwysigrwydd gwneud copïau wrth gefn o ddata a gallu disgrifio'r prosesau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>copi llawn wrth gefn</li> <li>copi cynyddol wrth gefn</li> <li>copi gwahaniaethol wrth gefn</li> <li>methodoleg Nain – Mam – Merch</li> </ul> </li> <li>gallu disgrifio'r cyfryngau canlynol a ddefnyddir i wneud copïau wrth gefn o ddata a'u haddasrwydd dan wahanol amgylchiadau: <ul style="list-style-type: none"> <li>gyriant fflach USB (Universal Serial Bus)</li> <li>gyriant caled allanol</li> <li>cyfryngau cyflwr solid</li> <li>storio yn y cwmwl</li> </ul> </li> <li>deall yr angen am gynllun adfer yn sgil trychineb a gallu esbonio opsiynau addas ar gyfer adfer.</li> </ul>
(d)	Gwasanaethau cwmwl	<p>Dylai dysgwyr allu disgrifio gwasanaethau cwmwl a deall:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>y gwahaniaeth rhwng cyfrifiadura cwmwl a storio yn y cwmwl</li> <li>manteision ac anfanteision defnyddio gwasanaethau cwmwl.</li> </ul>
(dd)	Cylchred oes datblygu systemau	<p>Dylai dysgwyr ddeall chwe rhan cylchred oes datblygu systemau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ymchwilio i'r System</li> <li>Dadansoddi'r System</li> <li>Dylunio'r System</li> <li>Gweithredu'r System</li> <li>Cynnal a chadw'r system</li> <li>Gwerthuso'r System.</li> </ul>

### 2.1.3 Cyfathrebu Digidol

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu digidol at bwrpasau personol, cymdeithasol a busnes
- dibynadwyedd ffynonellau ar-lein
- arferion a pherchenogaeth rhwydweithio cymdeithasol.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu digidol at bwrpasau personol, cymdeithasol a busnes	<p>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu digidol, eu manteision a'u hanfanteision ac unrhyw rwystrau cysylltiedig rhag cyfathrebu</li> <li>• y mathau canlynol o ddulliau cyfathrebu personol a chymdeithasol, gan gynnwys y normau cymdeithasol a'r ymddygiad disgwyltiedig wrth eu defnyddio: <ul style="list-style-type: none"> <li>• e-bostio</li> <li>• negeseua sydyn</li> <li>• blogiau</li> <li>• fideo-gynadledda</li> <li>• gwefannau ac apiau rhwydweithio cymdeithasol</li> </ul> </li> <li>• y dulliau cyfathrebu busnes mewnol ac allanol canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• fideo-gynadledda</li> <li>• teleweithio</li> <li>• e-bostio</li> <li>• dulliau hyrwyddo – hysbysebu, marchnata, gwefannau</li> <li>• apiau.</li> </ul> </li> </ul>
(b) Dibynadwyedd ffynonellau ar-lein	<p>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y materion yn ymwneud â dibynadwyedd ffynonellau ar-lein a ffeithiau mewn perthynas â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• cywirdeb gwybodaeth</li> <li>• gwybodaeth â thuedd</li> <li>• gwybodaeth wedi dyddio</li> </ul> </li> <li>• y dulliau canlynol sy'n gwirio gwybodaeth sydd i'w chael ar-lein: <ul style="list-style-type: none"> <li>• edrych ar fwy nag un ffynhonnell</li> <li>• defnyddio gwefannau dibynadwy.</li> </ul> </li> </ul>
(c) Arferion a pherchenogaeth rhwydweithio cymdeithasol	<p>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sut mae llwyfannau rhwydweithio cymdeithasol cyfoes yn gweithio</li> <li>• manteision ac anfanteision y cyfryngau cymdeithasol</li> <li>• sut mae rhwydweithio cymdeithasol yn effeithio ar y cysyniad o berchenogaeth dros gyfryngau.</li> </ul>

### 2.1.4 Effaith systemau digidol ar sefydliadau ac unigolion

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- arbedion effeithlonrwydd a manteision a gynigir gan systemau digidol
- gweithredu systemau digidol
- newidiadau i arferion gwaith
- newidiadau i berthnasoedd rhwng cynhyrchwyr, gweithgynhyrchwyr, dosbarthwyr a defnyddwyr
- twf gwasanaethau a moneteiddio cynnwys.

Cynnwys		Ymhelaethiad
(a)	Arbedion effeithlonrwydd a manteision a gynigir gan systemau digidol	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r arbedion effeithlonrwydd a'r manteision a gynigir gan systemau digidol a gallu adnabod manteision ac anfanteision: <ul style="list-style-type: none"> <li>• systemau digidol mewn swyddfa i sefydliad</li> <li>• systemau digidol defnyddwyr i unigolyn.</li> </ul>
(b)	Gweithredu systemau digidol	Dylai dysgwyr ddeall y methodolegau canlynol ar gyfer gweithredu systemau digidol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• dull peilot</li> <li>• dull paralel</li> <li>• dull 'y glec fawr'.</li> </ul>
(c)	Newidiadau i arferion gwaith	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r effaith y mae newidiadau i arferion gwaith wedi'i chael ar ddiwylliant a chymdeithas.
(ch)	Newidiadau i berthnasoedd rhwng cynhyrchwyr, gweithgynhyrchwyr, dosbarthwyr a defnyddwyr	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o fanteision ac anfanteision y canlynol i gwsmeriaid a busnesau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfnewid Data Electronig Busnes (EDI) i Fusnes [Business to Business (B2B)]</li> <li>• siopa ar-lein</li> <li>• marchnadoedd ar-lein sy'n prosesu gwerthiant 3ydd parti Busnes i Ddefnyddiwr [Business to Consumer (B2C)] neu Ddefnyddiwr i Ddefnyddiwr [Consumer to Consumer (C2C)].</li> <li>• Prynu a gwerthu B2B.</li> </ul>
(d)	Twf gwasanaethau a moneteiddio cynnwys	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• marchnata i ddarpar gwsmeriaid a chwsmeriaid presennol dros e-bost, cyfryngau cymdeithasol a dulliau eraill</li> <li>• hysbysebu drwy wefannau</li> <li>• cloddio a dadansoddi data.</li> </ul>

### 2.1.5 Diogelu data a systemau

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- yr amrywiaeth o fygythiadau i ddata
- yr amrywiaeth o fesurau rheoli gwydnwch seiberddiogelwch
- olion traed digidol
- cyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol, gan gynnwys preifatrwydd ac ymddiriedaeth.

Cynnwys		Ymhelaethiad
(a)	Yr amrywiaeth o fygythiadau i ddata	<p>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y bygythiadau canlynol i ddata sy'n cael eu storio ar systemau cyfrifiadurol ac ar-lein: <ul style="list-style-type: none"> <li>• difrod damweiniol – nodi sut y gall data fod mewn perygl o gael eu dinistrio ar ddamwain</li> <li>• difrod maleisus a bwriadol</li> </ul> </li> <li>• sut y gellir diogelu rhwydweithiau, systemau, data sy'n cael eu trosglwyddo a data sy'n cael eu storio gan ddefnyddio'r mesurau diogelwch canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• amgryptio</li> <li>• muriau gwarchod</li> <li>• meddalwedd wrthfyrssau</li> <li>• lefelau mynediad hierarchaidd.</li> </ul> </li> </ul>
(b)	Yr amrywiaeth o fesurau rheoli gwydnwch seiberddiogelwch	<p>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• seiberwydnwch, sef gallu cwmni i baratoi ar gyfer ymosodiad seiber a goroesi ymosodiad o'r fath, ymateb iddo ac adfer ar ei ôl</li> <li>• canlyniadau posibl ymosodiad seiber i gwmni: <ul style="list-style-type: none"> <li>• colli data a gwybodaeth dros dro neu'n barhaol</li> <li>• meddalwedd wedi'i difrodi neu ei llygru</li> <li>• gwefannau'n mynd all-lein</li> <li>• colli enw da</li> <li>• colli mantais gystadleuol</li> <li>• colled ariannol.</li> </ul> </li> <li>• y mesurau gwydnwch canlynol y gall cwmni eu defnyddio i atal ymosodiad seiber: <ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio mur gwarchod ffiniol a phorth rhyngwyd</li> <li>• rhoi mesurau ar waith i ffurfweddu systemau'n ddiogel, gan gynnwys cyfrifon gweinyddwr, trywyddau archwilio, rheoli cyfrifon a gwneud copïau wrth gefn</li> <li>• gweithredu mesurau rheoli mynediad gan gynnwys mynediad cyfyngedig at ddata gwerthfawr</li> <li>• gweithredu mesurau i ddiogelu rhag maleiswedd</li> <li>• rhoi mesurau rheoli patsys ar waith er mwyn sicrhau bod y diweddariadau meddalwedd diweddaraf yn cael eu gosod ar bob peiriant</li> <li>• sicrhau yr ymdrinnir â gwendidau hysbys a bod y fersiwn diweddaraf o raglen yn cael ei ddefnyddio</li> <li>• hyfforddi'r staff er mwyn sicrhau nad ydynt yn peryglu data.</li> </ul> </li> </ul>

Cynnwys		Ymhelaethiad
(b)	Yr amrywiaeth o fesurau rheoli gwydnwch seiberddiogelwch (parhad)	<ul style="list-style-type: none"> <li>y mesurau rheoli gwydnwch canlynol y gallai cwmni eu defnyddio i adfer yn sgil ymosodiad seiber: <ul style="list-style-type: none"> <li>gwneud trefniadau ar gyfer defnyddio safleoedd, dulliau cyfathrebu a chyfleusterau gwahanol</li> <li>ystyried amrywiaeth o senarios 'beth os'</li> <li>sicrhau y gwneir copïau wrth gefn yn rheolaidd.</li> </ul> </li> </ul>
(c)	Olion traed digidol	<p>Dylai dysgwyr ddeall y term ôl troed digidol ac mai mathau gwahanol o olion traed digidol yw'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>ôl troed digidol goddefol – data sy'n cael eu casglu heb yn wybod i'r defnyddiwr</li> <li>ôl troed digidol gweithredol – data a gyflwynir yn fwriadol ar-lein drwy flogiau, apiau, gwefannau a gweithredoedd yn y cyfryngau cymdeithasol.</li> </ul> <p>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r effaith bosibl pan ddefnyddir ôl troed digidol gan:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>gyflogwyr i fonitro gweithwyr neu ddarpar weithwyr</li> <li>gwasanaethau diogelwch i gasglu gwybodaeth</li> <li>rhaglenni i dargedu darpar gwsmeriaid.</li> </ul>
(ch)	Cyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>preifatrwydd</li> <li>ymddiriedaeth</li> </ul>	<p>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r egwyddorion sylfaenol a'r hyn sy'n gyfystyr â thorri'r ddeddfwriaeth ganlynol mewn perthynas â defnyddio cyfrifiaduron, data a dulliau cyfathrebu electronig a'u heffaith ar breifatrwydd ac ymddiriedaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Deddf Diogelu Data 2018 gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)</li> <li>Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990</li> <li>Deddf Pwerau Ymchwilio 2016.</li> </ul> <p>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o effaith foesegol defnyddio data a systemau yn eang ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>breifatrwydd unigolion</li> <li>cymdeithas ehangach.</li> </ul>

### 2.1.6 Technolegau digidol sy'n newid

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- cerrig milltir allweddol, gan gynnwys cyfraniadau unigolion, wrth ddatblygu dulliau cyfathrebu, systemau cyfrifiadura a dyfeisiau digidol
- datblygiad roboteg ddiwydiannol ac ymreolaethol, cerbydau ymreolaethol, rhithrealiti a realiti estynedig, deallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol, a chaledwedd sy'n gallu cysylltu â'r rhyngwrwd
- gwaith ymchwil nodedig ar dueddiadau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, datblygiadau yn y dyfodol a ffactorau ysgogi.

Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Cerrig milltir allweddol, gan gynnwys cyfraniadau unigolion, wrth ddatblygu dulliau cyfathrebu, systemau cyfrifiadura a dyfeisiau digidol	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r unigolion canlynol a'u cyfraniad at TG: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Fonesig Ada Lovelace <ul style="list-style-type: none"> <li>• y rhaglennydd cyfrifiadurol cyntaf, sef y person cyntaf i sylweddoli y gallai cyfrifiaduron wneud mwy na dim ond cyfrifo rhifau</li> </ul> </li> <li>• James Gosling <ul style="list-style-type: none"> <li>• yr unigolyn a ddatblygodd iaith rhaglennu Java</li> </ul> </li> <li>• Y Llyngesydd Grace Hopper <ul style="list-style-type: none"> <li>• yr unigolyn a ddyluniodd y cyfrifiadur electronig masnachol cyntaf</li> </ul> </li> <li>• Alan Turing <ul style="list-style-type: none"> <li>• yr unigolyn a ddatblygodd ddamcaniaeth gyfrifiannol, sy'n sail i gyfrifiadura modern</li> </ul> </li> <li>• Steve Jobs <ul style="list-style-type: none"> <li>• yr unigolyn wnaeth droi cyfrifiadura yn nwydd, ac a ddatblygodd ffonau clyfar a dyfeisiau i'w dal yn y llaw</li> </ul> </li> <li>• Syr Tim Berners-Lee. <ul style="list-style-type: none"> <li>• dyfeisydd y We Fyd-eang.</li> </ul> </li> </ul>
(b) Datblygiad: <ul style="list-style-type: none"> <li>• roboteg ddiwydiannol ac ymreolaethol</li> <li>• cerbydau ymreolaethol</li> <li>• rhithrealiti a realiti estynedig</li> <li>• deallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol</li> <li>• caledwedd sy'n gallu cysylltu â'r rhyngwrwd</li> </ul>	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o brif effeithiau'r datblygiadau canlynol mewn technoleg ddigidol dros amser ar gymdeithas, yr economi a diwylliant: <ul style="list-style-type: none"> <li>• robotiaid diwydiannol</li> <li>• robotiaid ymreolaethol</li> <li>• cerbydau ymreolaethol</li> <li>• rhithrealiti</li> <li>• realiti estynedig</li> <li>• Deallusrwydd Artiffisial (AI)</li> <li>• dysgu peirianyddol</li> <li>• caledwedd sy'n gallu cysylltu â'r rhyngwrwd gan gynnwys y Rhyngwrwd Pethau (IOT: Internet of Things).</li> </ul>
(c) Gwaith ymchwil nodedig ar dueddiadau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, datblygiadau yn y dyfodol a ffactorau ysgogi	Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r prif effeithiau y gall technoleg newydd a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg, tueddiadau a datblygiadau yn y dyfodol, a ffactorau ysgogi ym myd technoleg ddigidol, eu cael ar gymdeithas, yr economi a diwylliant.



## 2.2 Uned 2

### Arferion digidol

Asesiad di-arholiad: 45 awr  
40% o'r cymhwyster  
80 marc

### Trosolwg o'r uned

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:

- holi data mewn taenlen
- cynhyrchion digidol wedi'u llywio gan ddata.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn seiliedig ar gyd-destun a osodir gan CBAC bob blwyddyn, ac mae sampl i'w weld yn Atodiad B. Bydd y cyd-destun ar gael o wefan ddiogel CBAC o 1 Medi 2021 (i'w asesu yn 2023).

Rhaid i'r asesiad di-arholiad gael ei gyflwyno yn y ffyrdd canlynol:

- dogfennau maint A4 neu A3 wedi'u creu gan ddefnyddio prosesydd geiriau ac ar ffurf PDF
- tudalennau gwe ar ffurf HTML 5 a thystiolaeth ategol wedi'i chyflwyno mewn fformat sy'n gydnaws â chyfres rhaglenni Adobe

#### naill ai

- animeiddiad ar ffurf HTML 5 a thystiolaeth ategol wedi'i chyflwyno mewn fformat sy'n gydnaws â chyfres rhaglenni Adobe

#### neu

- gemau gweithredadwy gyda thystiolaeth ategol wedi'i chyflwyno mewn fformat sy'n gydnaws â GameMaker.

### Adran A: Holi Data mewn Taenlen

Er mwyn rhoi cyfle i ymgeiswyr ddatblygu cynnyrch digidol o'u dewis (sawl tudalen we sy'n cynnwys **naill ai** gêm fideo fach **neu** animeiddiad byr), byddant yn cymhwyso technegau dadansodol at y daenlen y byddant wedi'i datblygu. Bydd y data yn galluogi'r ymgeisydd i adnabod cynulleidfa darged, tueddiadau ac anghenion. Er mwyn asesu gwaith trefnu a dadansoddeg data, bydd gofyn i ymgeiswyr gyflawni dadansoddiad â ffocws pendant ar y set ddata er mwyn eu galluogi i ddatblygu cynnyrch digidol wedi'i lywio gan ddata.

### Adran B: Cynhyrchion digidol wedi'u llywio gan ddata

Gan ddefnyddio'r dadansoddiad a gwblhawyd yn Adran A, bydd ymgeiswyr yn llunio eu cynnig. (Gall yr athro gefnogi'r ymgeiswyr yn ystod y cam hwn er mwyn sicrhau bod eu cynnig yn rhoi cyfle i ymdrin â'r meini prawf asesu perthnasol.)

Gan mai cynnyrch wedi'i lywio gan ddata yw hwn, ac nid cynnyrch wedi'i arwain gan ddata, bydd gofyn i ymgeiswyr gael adborth gan ddefnyddwyr prawf addas yn ystod camau cynllunio a datblygu'r gylchred oes datblygu systemau.

### Cynllunio cynhyrchion digidol

Bydd gofyn i ymgeiswyr gynllunio eu cynhyrchion digidol a chadw log datblygu. Bydd y log yn fodd i asesu'r gwaith o werthuso a dethol dyluniadau a chynllunio agweddau technegol ar y gwaith dylunio.

### Datblygu cynhyrchion digidol

Bydd gofyn i ymgeiswyr ddefnyddio sgiliau technegol priodol i ddatblygu cynhyrchion digidol. Drwy logio materion, problemau, rhwystrau ac atebion, bydd modd asesu gallu ymgeiswyr i ddatblygu cynnyrch digidol sy'n bodloni'r anghenion, y tueddiadau neu'r gynulleidfa a nodwyd.

### Gwerthuso cynhyrchion digidol gorffenedig

Bydd ymgeiswyr yn profi eu cynhyrchion digidol gorffenedig er mwyn cael gwared ar wallau a bygiau.

Bydd ymgeiswyr yn llunio dogfen sy'n gwerthuso i ba raddau y mae'r cynnyrch digidol wedi'i lywio gan ddata wedi bodloni'r anghenion, y tueddiadau a'r gynulleidfa a nodwyd.

### Meysydd cynnwys

Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth yn y saith maes cynnwys a nodir ar dudalennau 18 i 23.

2.2.1	Trefnu data
2.2.2	Dadansoddeg data
2.2.3	Cynllunio cynhyrchion digidol
2.2.4	Datblygu cynhyrchion digidol
2.2.5	Gwerthuso cynhyrchion digidol gorffenedig

2.2.1 Trefnu data	
Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• mathau o ddata a'u nodweddion</li> <li>• ffynonellau data</li> <li>• glanhau a threfnu data.</li> </ul>	
Cynnwys	Ymhelaethiad
(a) Mathau o ddata a'u nodweddion	<p>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• adnabod a defnyddio amrywiaeth o fathau o ddata mewn taenlen</li> <li>• dewis y mathau mwyaf priodol o ddata i'w defnyddio o'r data crai a gyflwynir iddynt.</li> </ul>
(b) Ffynonellau data	<p>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y gellir cael gafael ar ddata o lawer o wahanol ffynonellau a'u cyflwyno mewn gwahanol fformatau.</p> <p>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mewnfario ffeiliau testun i mewn i daenlen newydd neu daenlen sydd eisoes yn bodoli</li> <li>• fformatio data'n fathau priodol o ddata.</li> </ul>

Cynnwys		Ymhelaethiad
(c)	Glanhau a threfnu data	<p>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod angen glanhau a threfnu data o bryd i'w gilydd.</p> <p>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>defnyddio dulliau â llaw a rhaglenni cyfrifiadurol i lanhau data er mwyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>cael gwared ar gopiâu dyblyg</li> <li>cael gwared ar ddata anghywir</li> <li>arbed lle storio</li> </ul> </li> <li>defnyddio nodweddion o fewn meddalwedd taenlen i lanhau a threfnu data drwy: <ul style="list-style-type: none"> <li>ddidoli data</li> <li>cael gwared ar gopiâu dyblyg</li> <li>cael gwared ar nodau diangen</li> <li>defnyddio amrywiaeth o ffwythiannau llinyn</li> <li>talgrynnu rhifau i fyny neu i lawr i nifer penodol o leoedd degol.</li> </ul> </li> </ul>

### 2.2.2 Dadansoddeg data

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- chwilio, didoli a hidlo data
- dadansoddeg data disgrifiadol: ystadegaeth a delweddu
- adnabod tueddiadau, cynulleidfaoedd ac anghenion.

Cynnwys		Ymhelaethiad
(a)	Chwilio, didoli a hidlo data	Dylai dysgwyr allu defnyddio cyfleusterau chwilio, didoli a hidlo yn briodol mewn meddalwedd taenlen.
(b)	Dadansoddeg data disgrifiadol: ystadegaeth a delweddu	<p>Dylai'r dysgwyr ddeall y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>gall dadansoddeg data disgrifiadol ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol</li> <li>gwneir hyn drwy ddadansoddi data yn ddisgrifiadol a delweddu data.</li> </ul> <p>Dylai dysgwyr allu defnyddio amrywiaeth o nodweddion a ffwythiannau dadansoddi disgrifiadol o fewn meddalwedd taenlen i grynhoi data.</p> <p>Dylai dysgwyr allu defnyddio nodweddion delweddu data o fewn meddalwedd taenlen i gyflwyno data yn y fformat mwyaf priodol.</p>
(c)	Adnabod tueddiadau, cynulleidfaoedd ac anghenion	<p>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>dadansoddi data mewn gwahanol ffyrdd i adnabod tueddiadau a phatrymau er mwyn canfod anghenion y gynulleidfa.</li> <li>cyflawni dadansoddiadau 'beth os'.</li> </ul>

### 2.2.3 Cynllunio cynhyrchion digidol

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- cynnig cynhyrchion digidol i fodloni tueddiadau, anghenion neu gynulleidfaoedd
- gwerthuso a dewis dyluniadau
- cynllunio agweddau technegol ar ddyluniadau (gan gynnwys agweddau gweledol ac agweddau yn ymwneud ag adnoddau, sain ac ati)
- creu logiau datblygu.

Cynnwys		Ymhelaethiad
(a)	Cynnig cynhyrchion digidol i fodloni tueddiadau, anghenion neu gynulleidfaoedd	Dylai dysgwyr allu defnyddio gwaith dadansoddi data i adnabod: <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynulleidfa darged</li> <li>• gofynion y gynulleidfa.</li> </ul>
(b)	Gwerthuso a dewis dyluniadau	Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio adnoddau fel braslunio neu fframiau gwifren i ganfod datrysiadau dylunio</li> <li>• gwerthuso datrysiadau dylunio er mwyn dewis dyluniad yn seiliedig ar adborth ac anghenion y gynulleidfa darged</li> <li>• casglu tystiolaeth mewn log datblygu.</li> </ul>
(c)	Cynllunio agweddau technegol ar ddyluniadau (gan gynnwys agweddau gweledol ac agweddau yn ymwneud ag adnoddau, sain ac ati)	Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd defnyddio bwrdd stori/templod wrth ddylunio gwefannau, gemau ac animeiddiadau er mwyn sicrhau cysondeb o ran strwythur ac ymddangosiad.  Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd ymgorffori nodweddion hygyrchedd mewn agweddau perthnasol ar eu cynhyrchion digidol.
(ch)	Creu logiau datblygu	Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd creu a chynnal logiau datblygu cyfredol er mwyn dogfennu'r elfennau cynllunio, datblygu a gwerthuso.

### 2.2.4 Datblygu cynhyrchion digidol

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- meithrin a defnyddio sgiliau technegol priodol i ddatblygu cynhyrchion digidol
- datblygu cynhyrchion digidol sy'n bodloni'r anghenion, y tueddiadau neu'r cynulleidfaoedd a nodwyd
- logio materion, problemau a rhwystrau, a datrysiadau.

Cynnwys		Ymhelaethiad
(a)	Meithrin a defnyddio sgiliau technegol priodol i ddatblygu cynhyrchion digidol	<p>Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd creu prototeip wedi'i ddogfennu y gellir ei adolygu a'i brofi.</p> <p>Er mwyn helpu i ddatblygu cynhyrchion digidol, dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau priodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio meddalwedd delweddau i greu a thrin delweddau, gan ystyried hawlfraint</li> <li>• defnyddio meddalwedd awduro ar gyfer y we i greu tudalennau gwe strwythuredig</li> <li>• <b>naill ai</b> defnyddio meddalwedd datblygu gemau i greu gemau â sawl haen</li> <li>• <b>neu</b> ddefnyddio meddalwedd animeiddio i greu animeiddiadau sy'n cynnwys nifer o olygfeydd.</li> </ul>
(b)	Datblygu cynhyrchion digidol sy'n bodloni'r anghenion, y tueddiadau neu'r cynulleidfaoedd a nodwyd	Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd adolygu gwaith a gwneud newidiadau yn seiliedig ar adborth.
(c)	Logio: <ul style="list-style-type: none"> <li>• materion, problemau a rhwystrau</li> <li>• datrysiadau</li> </ul>	<p>Dylai dysgwyr allu dogfennu materion, problemau a rhwystrau yn ogystal â disgrifio eu datrysiadau gan gynnal:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• log datblygu</li> <li>• log asedau sy'n gyfredol.</li> </ul>

### 2.2.5 Gwerthuso cynhyrchion digidol gorffenedig

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- profi cynhyrchion digidol gorffenedig er mwyn cael gwared ar wallau/bygiau
- gwerthuso i ba raddau y mae cynhyrchion digidol wedi'u llywio gan ddata yn bodloni'r anghenion, y tueddiadau neu'r gynulleidfa a nodwyd.

Cynnwys		Ymhelaethiad
(a)	Profi cynhyrchion digidol gorffenedig er mwyn cael gwared ar wallau/bygiau	Dylai dysgwyr allu dylunio, cynnal a dogfennu profion i gael gwared ar wallau a bygiau.
(b)	Gwerthuso i ba raddau y mae cynhyrchion digidol wedi'u llywio gan ddata yn bodloni'r anghenion, y tueddiadau neu'r gynulleidfa a nodwyd	Dylai dysgwyr allu defnyddio technegau casglu data fel: arolygon, cyfweiliadau ac arsylwadau er mwyn cael adborth y gynulleidfa darged a gwerthuso i ba raddau y mae'r cynnyrch gorffenedig yn bodloni'r anghenion a nodwyd.

## 2.3 Uned 3

### Cyfathrebu yn y byd digidol

Asesiad di-arholiad: 15 awr  
20% o'r cymhwyster  
60 marc

### Trosolwg o'r uned

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:

- y cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebiadau marchnata ar-lein
- creu asedau digidol a chynllunio cyfathrebiadau digidol.

Mae'r asesiad di-arholiad hwn yn seiliedig ar gyd-destun a osodir gan CBAC bob blwyddyn, ac mae sampl i'w weld yn Atodiad B. Bydd y cyd-destun ar gael o wefan ddiogel CBAC o 1 Medi 2021 (i'w asesu yn 2023).

Rhaid i'r asesiad di-arholiad gael ei gyflwyno yn y ffyrdd canlynol:

- dogfennau maint A4 neu A3 wedi'u creu gan ddefnyddio prosesydd geiriau ac ar ffurf PDF
- ffeiliau cyfryngau ar ffurf MP3 a thystiolaeth ategol wedi'i chyflwyno mewn fformat sy'n gydnaws â chyfres rhaglenni Adobe.

Noder – ni ddylai ymgeiswyr gyhoeddi eu hymgyrchoedd ar-lein.

### Adran A: Y cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebiadau marchnata ar-lein

Er mwyn rhoi cyfle i ymgeiswyr ddatblygu ased o'u dewis, e.e. hysbyseb fideo ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, bydd ymgeiswyr yn ymchwilio i ddemograffeg, priodoleddau a nodweddion llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn gyntaf. Byddant hefyd yn edrych ar ffurfiau o farchnata digidol a dulliau o'u lleoli, eu cydlynw a'u targedu, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu cynnig.

### Adran B: Creu asedau digidol a chynllunio cyfathrebiadau digidol

Bydd ymgeiswyr yn creu ased ar gyfer y cyfryngau digidol i ategu strategaeth cyfathrebu digidol effeithiol y byddant wedi penderfynu arni yn seiliedig ar eu gwaith ymchwil. Hysbyseb amlgyfrwng sy'n defnyddio testun a delweddau fydd yr ased ar gyfer y cyfryngau digidol. Bydd ymgeiswyr yn creu prototeip o'r ffordd y bydd yr ased yn cael ei rannu, gan adnabod cyfleoedd ac amcanion, a llunio ymgyrch farchnata derfynol.

Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o bedwar maes y cynnwys a nodir ar dudalennau 25 i 29.

### Meysydd cynnwys

2.3.1	Ffurfiau o gyfathrebiadau marchnata ar-lein
2.3.2	Effaith cyfathrebiadau marchnata ar-lein
2.3.3	Creu asedau digidol
2.3.4	Cynllunio cyfathrebiadau digidol

### 2.3.1 Ffuriau o gyfathrebiadau marchnata ar-lein

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol; demograffeg, priodoleddau a nodweddion;
- marchnata ar-lein digidol; ffurfiau a dulliau o'u lleoli, eu cydlynu a'u targedu.

Cynnwys	Ymhelaethiad
<p>(a) Llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• demograffeg</li> <li>• priodoleddau</li> <li>• nodweddion</li> </ul>	<p>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o bwysigrwydd ystyried demograffeg nodweddiadol llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol, o ran y nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil) wrth benderfynu pa gyfryngau i'w defnyddio mewn ymgyrchoedd cyfathrebu.</p> <p>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o briodoleddau gwahanol llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol a'r hyn y maent yn galluogi defnyddwyr i'w wneud mewn perthynas â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• proffiliau</li> <li>• cysylltiadau</li> <li>• llwytho cynnwys i fyny mewn amser real</li> <li>• galluogi sylwadau/sgyrsiau</li> <li>• negeseuon â stamp amser arnynt</li> </ul> <p>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r mathau diweddaraf o gyfryngau cymdeithasol gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• personoli proffiliau</li> <li>• cynyddu nifer y dilynwyr sydd gan ddefnyddiwr</li> <li>• preifatrwydd a diogelwch</li> <li>• hysbysiadau</li> <li>• ffrwd newyddion</li> <li>• integreiddio â llwyfannau eraill y cyfryngau cymdeithasol</li> <li>• sylwadau/adolygiadau</li> <li>• nodau tudalen/cadw</li> <li>• negeseuon</li> <li>• cyfryngau</li> <li>• rhannu.</li> </ul>

Cynnwys		Ymhelaethiad
(b)	<p>Marchnata ar-lein digidol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ffurfiau</li> <li>• lleoliad</li> <li>• cydlyniad</li> <li>• targedu</li> </ul>	<p>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r ffurfiau canlynol o farchnata digidol, gan gynnwys elfennau cyffredinol, fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• logos</li> <li>• arwyddeiriau</li> <li>• dilyniannau wedi'u golygu</li> <li>• effeithiau lliw.</li> </ul> <p>Dylai dysgwyr ddeall y gall dulliau o leoli deunydd marchnata digidol gynnwys defnyddio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• safleoedd rhwydweithio cymdeithasol</li> <li>• microflogio</li> <li>• rhannu lluniau</li> <li>• rhannu fideos.</li> </ul> <p>Dylai'r dysgwyr ddeall pwysigrwydd cydlynu marchnata digidol gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynllunio'r cynnwys</li> <li>• ysgrifennu'r cynnwys</li> <li>• adolygu'r cynnwys.</li> </ul> <p>Dylai dysgwyr ddeall y gellir targedu deunydd marchnata digidol gan ddefnyddio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymgyrchoedd hyrwyddo wedi'u hawtomeiddio</li> <li>• demograffeg.</li> </ul>

### 2.3.2 Effaith cyfathrebiadau marchnata ar-lein

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o effeithiau canlynol cyfathrebiadau marchnata ar-lein:

- manteision a chyfleoedd
- risgiau.

Cynnwys		Ymhelaethiad
(a)	Manteision a chyfleoedd	<p>Dylai dysgwyr ddeall y manteision a'r cyfleoedd canlynol a gynigir gan gyfathrebiadau marchnata ar-lein:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• treiddio i'r farchnad – gwerthu mwy yn y marchnadoedd presennol</li> <li>• datblygu'r farchnad – marchnadoedd daearyddol newydd</li> <li>• adeiladu brand – ymwybyddiaeth o frand, cynefindra, ffafriaeth</li> <li>• rhyngweithio – yn seiliedig ar sbardun, yn cael ei ysgogi gan ddigwyddiad.</li> </ul>
(b)	Risgiau	<p>Dylai dysgwyr ddeall y risgiau canlynol sy'n gysylltiedig â chyfathrebiadau marchnata ar-lein:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• hygrededd</li> <li>• risgiau seiberddiogelwch</li> <li>• dibynnol ar dechnoleg</li> <li>• prisiau mwy tryloyw</li> <li>• costau cynnal a chadw oherwydd datblygiadau technolegol</li> <li>• diogelwch/preifatrwydd</li> <li>• trendio a diddordeb fïrol</li> <li>• cystadleuaeth fyd-eang.</li> </ul>



### 2.3.3 Creu asedau digidol

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- defnyddio meddalwedd neu apiau priodol i greu asedau ar gyfer y cyfryngau digidol i ategu strategaethau cyfathrebu digidol, ar y ffurfiau hyn:
  - copi (testun)
  - ffotograffau, delweddau, graffigau a delweddau wedi'u trin
  - delweddau symudol byw wedi'u golygu

Cynnwys	Ymhelaethiad
<p>(a) Defnyddio meddalwedd neu apiau priodol i greu asedau ar gyfer y cyfryngau digidol i ategu strategaethau cyfathrebu digidol, ar y ffurfiau hyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• copi (testun)</li> <li>• ffotograffau, delweddau, graffigau a delweddau wedi'u trin</li> <li>• delweddau symudol byw wedi'u golygu</li> </ul>	<p>Dylai dysgwyr allu defnyddio meddalwedd neu apiau priodol i greu asedau ar gyfer y cyfryngau digidol. Dylai hwn gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• copi (testun)           <ul style="list-style-type: none"> <li>• mewnbynnu testun</li> <li>• trin testun</li> </ul> </li> <li>• graffigau/delweddau/ffotograffau           <ul style="list-style-type: none"> <li>• creu ased</li> <li>• mewnosod i mewn i ased arall</li> <li>• trin asedau</li> </ul> </li> <li>• delweddau symudol           <ul style="list-style-type: none"> <li>• creu ased</li> <li>• mewnosod i mewn i ased arall</li> <li>• trin asedau</li> </ul> </li> <li>• allforio asedau ar gyfer y cyfryngau digidol i fformat penodedig arall</li> </ul> <p>Dylai dysgwyr allu gwerthuso i ba raddau y mae ased ar gyfer y cyfryngau digidol yn ategu strategaeth cyfathrebu digidol.</p>

### 2.3.4 Cynllunio cyfathrebiadau digidol

Yn yr adran hon bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- adnabod cyfleoedd ac amcanion
- pennu strategaeth gyfathrebu ar gyfer marchnata digidol ar-lein
- datblygu cydlyniad rhwng copi ac asedau ar gyfer y cyfryngau digidol
- llunio ymgyrchoedd marchnata.

Cynnwys		Ymhelaethiad
(a)	Adnabod cyfleoedd ac amcanion	Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• adnabod anghenion a chwantau'r cwsmer</li> <li>• gwerthuso'r galw</li> <li>• adnabod amcanion meintiol.</li> </ul>
(b)	Pennu strategaeth gyfathrebu ar gyfer marchnata digidol ar-lein	Dylai dysgwyr allu pennu strategaeth gyfathrebu ar gyfer marchnata digidol ar-lein gan ddefnyddio'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynnwys wedi'i arwain gan ddefnyddwyr</li> <li>• straeon wedi'u harwain gan ddefnyddwyr</li> <li>• hysbysebion cyn fideos</li> <li>• tagiau yn y cyfryngau cymdeithasol.</li> </ul>
(c)	Datblygu cydlyniad rhwng copi ac asedau ar gyfer y cyfryngau digidol	Dylai dysgwyr ddeall bod angen i destun ac asedau ar gyfer y cyfryngau digidol gael eu hasesu o ran: <ul style="list-style-type: none"> <li>• addasrwydd i'r pwrpas</li> <li>• addasrwydd i'r gynulleidfa darged/demograffig</li> <li>• cysondeb o ran arddull tŷ.</li> </ul>
(ch)	Llunio ymgyrchoedd marchnata	Dylai dysgwyr ddeall y meini prawf llwyddiant ar gyfer ymgyrchoedd marchnata mewn perthynas â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• nodau'r cwmni</li> <li>• nodau'r ymgyrch farchnata</li> <li>• grŵp demograffig targed</li> <li>• brandio</li> <li>• nodau ar gyfer safon yr ased digidol.</li> </ul>

## 3 ASESU

### 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

#### AA1

Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o systemau technoleg ddigidol.

#### AA2

Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o systemau technoleg ddigidol mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

#### AA3

Cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth er mwyn adnabod anghenion y gynulleidfa a chynllunio cynhyrchion a chyfathrebiadau digidol sy'n bodloni'r anghenion hyn.

#### AA4

Datblygu, profi a gwerthuso cynhyrchion digidol sy'n bodloni anghenion cynulleidfaoedd penodol.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac am y cymhwyster yn gyffredinol.

	AA1	AA2	AA3	AA4	Cyfanswm
<b>Uned 1</b>	20%	20%	-	-	40%
<b>Uned 2</b>	-	-	15%	25%	40%
<b>Uned 3</b>	-	5%	5%	10%	20%
<b>Pwysoliad cyffredinol</b>	<b>20%</b>	<b>25%</b>	<b>20%</b>	<b>35%</b>	<b>100%</b>

## 3.2 Trefniadau ar gyfer asesiadau di-arholiad

Mae Uned 2 ac Uned 3 yn asesiadau di-arholiad sy'n cael eu hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'u cymedroli'n allanol gan CBAC. Rhaid cynnal yr asesiad di-arholiad yn unol â'r ddogfen *Instructions for Conducting Examinations* (Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau – yn Gymraeg ar wefan CBAC) gan y CGC, sydd ar gael yn [www.icq.org.uk](http://www.icq.org.uk).

### Tasgau

Cyflwynir cyd-destunau enghreifftiol i'w hasesu yn Uned 2 ac Uned 3 yn Atodiad B y fanyleb hon. Ni ddylid defnyddio'r rhain ag asesiadau byw.

Bydd CBAC yn gosod cyd-destunau bob blwyddyn ac yn eu cyhoeddi ar wefan ddiogel CBAC. Caiff y cyd-destun ei ryddhau ym mis Medi bob blwyddyn, o Fedi 2021. Gellir ond ei dderbyn ar gyfer dyfarnu yn y flwyddyn benodedig, fel sydd i'w weld yn y tabl isod.

Dyddiad rhyddhau'r cyd-destun	Blwyddyn y dyfarniad			
	2023	2024	2025	2026
Medi 2021	✓	-	-	-
Medi 2022	-	✓	-	-
Medi 2023	-	-	✓	-
Medi 2024	-	-	-	✓

### Paratoi ar gyfer Asesiad Di-arholiad

Gall y tasgau asesu di-arholiad gael eu cwblhau a'u hasesu ar unrhyw adeg addas yn ystod y cwrs.

Fodd bynnag, bydd angen i ganolfannau sicrhau eu bod wedi cyflwyno'r cynnwys angenrheidiol i ymgeiswyr allu ennill marciau a roddir am bob agwedd ar yr asesiad di-arholiad perthnasol.

Cyn dechrau'r cwrs, mae'r athro'n gyfrifol am roi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer TGAU Technoleg Ddigidol.

Rhaid i ymgeiswyr ddeall bod yn rhaid cyfeirio at wybodaeth o ffynonellau cyhoeddedig. Dylent gael arweiniad ar nodi cyfeiriadau a bod yn ymwybodol na ddylent gyflawni llên-ladrad. Dylent wybod bod copïo unrhyw ddeunydd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill a'i gyflwyno heb gydnabyddiaeth yn cael ei ystyried yn dwyll bwriadol. Rhaid i ganolfannau roi gwybod i CBAC am unrhyw amheuan o gamymddwyn sydd ganddyn nhw.

Mae'n bwysig bod gwaith asesu di-arholiad yn cael ei fonitro gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeiswyr eu hunain ydyw. Mae'n ofynnol i bob dysgwr lofnodi mai ei waith ei hun a gyflwynwyd ganddo ac mae'n ofynnol i athrawon gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd dan sylw yn unig yw'r gwaith a aseswyd a'i fod wedi'i gyflawni dan yr amodau gofynnol.

Ni chaiff ymgeiswyr gydweithio â'i gilydd yn ystod y tasgau ar gyfer Uned 2 nac Uned 3.

### Yr amser sydd ar gael ar gyfer Asesiad Di-arholiad

Dylai ymgeiswyr dreulio tua 45 awr ar eu tasg asesu di-arholiad ar gyfer Uned 2 a 15 awr ar eu tasg asesu di-arholiad ar gyfer Uned 3. Mae'r amseroedd hyn yn cyfeirio at waith wedi'i gwblhau dan oruchwyliaeth uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth.

Gellir gwneud gwaith ymchwiliol y tu allan i'r amser dan oruchwyliaeth, ac ni ddylid ei gofnodi i gyfrif tuag at yr amseroedd a nodir uchod. Fodd bynnag, rhaid i'r holl waith heblaw am y gwaith ymchwiliol gael ei gwblhau o dan oruchwyliaeth uniongyrchol ac mae'n cyfrif tuag at yr amseroedd a nodir uchod.

Does dim gofyniad nac argymhelliad ar gyfer nifer y geiriau na'r tudalennau mewn tasgau Asesiad Di-arholiad.

### Goruchwyllo a Monitro Asesiad Di-arholiad

- Unwaith y bydd yr asesiad di-arholiad wedi dechrau, dylai gwaith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen er mwyn lleihau'r risg o gamymddwyn.
- **Nid** oes rhaid goruchwyllo'r ymgeiswyr yn uniongyrchol drwy'r amser.
- Yn ystod eu hasesiad di-arholiad, ni ragnodir y defnydd o adnoddau, gan gynnwys y Rhyngwrdd, yn llym a gall ymgeiswyr ddefnyddio'r fath adnoddau. Fodd bynnag, **rhaid** i'r ganolfan sicrhau:
  - bod digon o oruchwyliaeth i bob ymgeisydd er mwyn i'r gwaith allu cael ei ddilysu
  - mai gwaith unigol yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu.
- Gellir cwblhau gwaith ymchwiliol y tu allan i'r ganolfan heb oruchwyliaeth uniongyrchol, ar yr amod bod y ganolfan yn hyderus mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gynhyrchwyd. Y tu allan i'r ganolfan, gall ymgeiswyr:
  - gael mynediad anghyfyngedig at adnoddau electronig ac argraffedig
  - defnyddio'r rhyngwrdd heb gyfyngiadau.
- Gall athrawon gynnig arweiniad a chefnogaeth i ymgeiswyr er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ofynion y tasgau asesu di-arholiad, yr asesiad a'r meini prawf marcio cysylltiedig.
- Gall athrawon gynghori ymgeiswyr ar ba mor addas yw'r cyd-destun sydd wedi'i ddewis ar gyfer eu gwaith asesu di-arholiad, o ran y cyfle i'r gwaith terfynol fodloni'r holl ofynion asesu perthnasol. Ar ôl cychwyn ar y gwaith, rhaid cyfyngu unrhyw adborth i gynnig cyngor cyffredinol am yr hyn i'w wella. Ni ddylai athrawon roi arweiniad penodol ar sut i wneud y gwelliannau hyn.
- Mae 'cyngor cyffredinol' yng nghyd-destun asesiad di-arholiad TGAU Technoleg Ddigidol yn cynnwys:
  - sicrhau bod yr ymgeiswyr yn deall gofynion y dasg berthnasol, gan gynnwys y canlyniad gofynnol a'r amser sydd ar gael
  - sicrhau bod gan lwybrau'r ymgeiswyr drwy'r asesiad di-arholiad y potensial i fodloni gofynion y meini prawf marcio a bod yn ddigon anodd i ennill y marciau o'r bandiau uchaf
  - rhoi arweiniad ar y defnydd diogel o galedwedd a meddalwedd TGCh sydd ar gael i ymgeiswyr sy'n cyflawni gweithgareddau asesu di-arholiad.
- Yng nghyd-destun 'cyngor cyffredinol' **nid** yw athrawon yn cael:
  - roi cyngor manwl i ymgeisydd na chymryd yr awenau drwy'r broses asesu di-arholiad
  - cywiro nac addasu gwaith ymgeisydd
  - rhoi cyfarwyddyd penodol i ymgeisydd er mwyn iddo ennill marciau uwch
  - llunio unrhyw fath o ffrâm ysgrifennu i'w defnyddio mewn gweithgareddau asesu di-arholiad.
- Caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio adnoddau a all gynnwys gwybodaeth sy'n cael ei chasglu y tu allan i'r ysgol/coleg, er enghraifft fel rhan o'u gweithgareddau ymchwiliol neu ymchwil.

- Pan fydd ymgeiswyr yn gweithio ar eu hasesiad di-arholiad, rhaid i athrawon fonitro cynnydd yn ddigonol er mwyn gallu dilysu'r gwaith fel gwaith yr ymgeisydd ei hun (gweler hefyd y wybodaeth am ddilysu isod).
- Ar ôl cwblhau'r dasg a'i hasesu'n derfynol, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r gwaith.

Dylai'r athro gofnodi'r amser a dreuliwyd yn gweithio ar y dasg asesu di-arholiad fel log. Mae'n bosibl y bydd CBAC yn gofyn am hwn yn ogystal â'r gwaith a gyflwynwyd i'w gymedroli. Dylai'r log gael ei fonitro gan y ganolfan er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn treulio 45 awr a 15 awr ar eu tasgau asesu di-arholiad perthnasol ar gyfer Uned 2 ac Uned 3.

### Dilysu

Mae'n bwysig bod gwaith asesu di-arholiad yn cael ei fonitro'n drwyadl gan ganolfannau er mwyn sicrhau mai gwaith yr ymgeiswyr eu hunain ydyw. Dylai canolfannau fonitro gwaith ymgeiswyr drwy:

- gadw cofnod gofalus o gynnydd yn ystod y sesiynau a amserlennwyd
- ystyried yn ofalus a yw'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd yn nodweddiadol o allu/cyrhaeddiad yr ymgeiswyr
- cadw gwaith yn ddiogel yn y ganolfan unwaith y cyflwynir y dystiolaeth
- sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddychwelyd i'r ymgeisydd i wneud newidiadau.

### Cyfeiriadau

Mae'n rhaid cydnabod cyfeiriadau at ffynonellau o wybodaeth mewn tasgau asesu di-arholiad. Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio llyfryddiaeth atodol drwy ddefnyddio system gyfeirio fewn-destunol gonfensiynol, neu drwy ddefnyddio troednodiadau.

### Y dystiolaeth i'w chyflwyno

Rhaid i ganolfannau sicrhau CBAC mai gwaith yr ymgeiswyr dan sylw yw'r dystiolaeth a gyflwynir. Heblaw am weithgareddau ymchwiliol, rhaid i'r holl waith gael ei gyflawni dan oruchwyliaeth uniongyrchol.

Rhaid i'r athro/athrawes sy'n gyfrifol am oruchwyllo gwaith yr ymgeisydd gwblhau datganiad bod yr unigolyn hwnnw'n fodlon mai tystiolaeth yr ymgeisydd dan sylw yw'r hyn a gyflwynwyd.

#### Uned 2 – tystiolaeth i'w chyflwyno

Project ymarferol wedi'i gwblhau gan yr ymgeisydd, taflen farciau wedi'i chwblhau gan yr aseswr, datganiadau dilysu wedi'u llofnodi (gan yr athro a'r ymgeisydd) wedi'u cyflwyno'n electronig gan ddefnyddio llwyfan ar-lein CBAC.

#### Uned 3 – tystiolaeth i'w chyflwyno

Ymgyrch cyfathrebu digidol ar-lein wedi'i gwblhau gan yr ymgeisydd, taflen farciau wedi'i chwblhau gan yr aseswr, datganiadau dilysu wedi'u llofnodi (gan yr athro a'r ymgeisydd) wedi'u cyflwyno electronig gan ddefnyddio llwyfan ar-lein CBAC.

Rhaid llenwi taflenni clawr asesiad di-arholiad ar gyfer pob ymgeisydd (nid dim ond y rhai a ddewisir i'w cymedroli). Gellir llwytho'r ffurflenni i lawr o wefan ddiogel CBAC.

### Diogelwch gwaith ymgeiswyr

**Rhaid** cadw gwaith ymgeiswyr yn ddiogel rhwng sesiynau asesuadau di-arholiad wedi'u hamserlennu, a than ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r cymedroli neu tan y bydd adolygiad o'r cymedroli, apêl neu ymchwiliad i gamymddwyn wedi ei gwblhau, pa un bynnag sydd hwyraf.

**Meini prawf asesu ar gyfer Uned 2 ac Uned 3**

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer Uned 2 ac Uned 3 wedi'u crynhoi yn y tablau isod ac fe'u dangosir yn fanwl yn Atodiad A.

**Uned 2**

Meini Prawf Asesu		Amcan Asesu	Marciau
(a)	Trefnu a dadansoddeg data	AA3	12
(b)	Cynllunio – gwefan	AA3	11
(c)	Cynllunio – animeiddiad neu gêm	AA3	7
(ch)	Datblygu cynhyrchion digidol – asedau	AA4	10
(d)	Datblygu cynhyrchion digidol – gwefan	AA4	15
(dd)	Datblygu cynhyrchion digidol – animeiddiad neu gêm	AA4	15
(e)	Profi cynhyrchion gorffenedig	AA4	5
(f)	Gwerthuso cynhyrchion gorffenedig	AA4	5
			<b>Cyfanswm 80</b>

**Uned 3**

Meini Prawf Asesu		Amcan Asesu	Marciau
(a)	Ffuriau o gyfathrebiadau marchnata ar-lein	AA2	9
(b)	Effaith cyfathrebiadau marchnata ar-lein	AA2	6
(c)	Cynllunio cyfathrebiadau digidol – dadansoddi anghenion y gynulleidfa	AA3	6
(ch)	Cynllunio cyfathrebiadau digidol – cynllunio ased digidol	AA3	9
(d)	Creu asedau digidol	AA4	25
(dd)	Gwerthuso asedau digidol	AA4	5
			<b>Cyfanswm 60</b>

## 4 GWYBODAETH DECHNEGOL

### 4.1 Cofrestru

Cymhwyster llinol yw hwn y mae'n rhaid sefyll yr holl asesiadau ar ei gyfer ar ddiwedd y cwrs. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn Haf 2023.

Gall ymgeiswyr sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Rhaid i ymgeiswyr ailsefyll pob uned arholiad yn yr un gyfres.

Gellir trosglwyddo marciau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll cydran Asesu Di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo marc yr Asesiad Di-arholiad blaenorol), yna'r marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'n is na'r marc o'r ymgais flaenorol.

Os ardystiodd ymgeisydd ar ddau achlysur neu fwy o'r blaen, y marc o'r Asesiad Di-arholiad mwyaf diweddar sy'n cael ei drosglwyddo, heb ystyried a yw'r marc hwnnw'n uwch neu'n is (oni bai bod y marc yn absennol) Mae'r codau cofrestru i'w gweld isod.

Teitl	Codau cofrestru	
	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg
TGAU Technoleg Ddigidol	3540QS	3540CS

Mae'r rhifyn cyfredol o'n dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

### 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A\*–G, ac A\* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).



# Atodiad A

## Gridiau Asesu ar gyfer Uned 2

### Adran A

(a) Trefnu a dadansoddeg data (2.2.1 a 2.2.2)		[12 marc]
<b>Band</b>	<b>AA3:</b> <i>Cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth er mwyn adnabod anghenion y gynulleidfa a chynllunio cynhyrchion a chyfathrebiadau digidol sy'n bodloni'r anghenion hyn</i>	
<b>4</b>	<p style="text-align: center;"><b>10-12 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn ardderchog er mwyn adnabod anghenion y gynulleidfa a chynllunio cynhyrchion digidol sy'n bodloni'r anghenion hyn drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• prosesu data yn drylwyr ac yn effeithiol gan ddefnyddio technegau glanhau a didoli perthnasol</li> <li>• cyfrifo canlyniadau yn gywir gan ddefnyddio'r ffwythiannau priodol</li> <li>• dangos tueddiadau data perthnasol yn glir ar sail y data hidledig cywir gan ddefnyddio dulliau delweddu data hynod briodol</li> <li>• cyflawni amrywiaeth o ymchwiliadau perthnasol gan ddefnyddio technegau datblygedig fel y gwelir yn y log dadansoddi.</li> </ul>	
<b>3</b>	<p style="text-align: center;"><b>7-9 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn dda er mwyn adnabod anghenion y gynulleidfa a chynllunio cynhyrchion digidol sy'n bodloni'r anghenion hyn drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• prosesu data yn drylwyr gan ddefnyddio technegau glanhau a didoli perthnasol gan amlaf</li> <li>• cyfrifo canlyniadau yn gywir</li> <li>• dangos tueddiadau data perthnasol yn glir gan ddefnyddio dulliau delweddu data priodol ar y cyfan</li> <li>• cyflawni amrywiaeth o ymchwiliadau perthnasol fel y gwelir yn y log dadansoddi.</li> </ul>	
<b>2</b>	<p style="text-align: center;"><b>4-6 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn sylfaenol er mwyn adnabod anghenion y gynulleidfa a chynllunio cynhyrchion digidol sy'n bodloni'r anghenion hyn drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• prosesu data gan ddefnyddio rhai technegau glanhau a didoli</li> <li>• cyfrifo'r rhan fwyaf o'r canlyniadau yn gywir</li> <li>• dangos rhai tueddiadau data gan ddefnyddio dulliau delweddu data syml</li> <li>• cyflawni o leiaf un ymchwiliad perthnasol fel y gwelir yn y log dadansoddi.</li> </ul>	

<b>Band</b>	<b>AA3:</b> <i>Cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth er mwyn adnabod anghenion y gynulleidfa a chynllunio cynhyrchion a chyfathrebiadau digidol sy'n bodloni'r anghenion hyn</i>
<b>1</b>	<p style="text-align: center;"><b>1-3 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn gyfyngedig er mwyn adnabod anghenion y gynulleidfa a chynllunio cynhyrchion digidol sy'n bodloni'r anghenion hyn drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• prosesu data gan ddefnyddio rhai technegau</li> <li>• cyfrifo canlyniad yn gywir</li> <li>• dangos tuedd data fel y gwelir yn y log dadansoddi.</li> </ul>
	<p style="text-align: center;"><b>0 marc</b></p> <p>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</p>

## Adran B

<b>(b) Cynllunio – gwefan (2.2.3)</b>		[11 marc]
<b>Band</b>	<b>AA3:</b> <i>Cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth er mwyn adnabod anghenion y gynulleidfa a chynllunio cynhyrchion a chyfathrebiadau digidol sy'n bodloni'r anghenion hyn</i>	
<b>4</b>	<p style="text-align: center;"><b>10-11 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn ffordd ardderchog er mwyn cynllunio cynhyrchion digidol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• creu dyluniadau ardderchog a fyddai'n galluogi trydydd parti cymwys i greu gwefan broffesiynol sy'n bodloni holl ofynion allweddol y senario</li> <li>• trefnu ei le gwaith yn drylwyr ac yn effeithiol gyda ffolderi, ffeiliau a dogfennau wedi'u cadw'n gywir gan ddefnyddio confensiwn enwi priodol</li> <li>• cynnal log datblygu clir a manwl sy'n dogfennu: <ul style="list-style-type: none"> <li>• ei fod wedi cael adborth gan ddefnyddwyr prawf ac wedi ymateb yn effeithiol iddo er mwyn datblygu'r holl ddyluniadau ymhellach</li> <li>• y broses ddylunio gyflawn.</li> </ul> </li> </ul>	
<b>3</b>	<p style="text-align: center;"><b>7-9 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn dda er mwyn cynllunio cynhyrchion digidol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• creu dyluniadau da a fyddai'n galluogi trydydd parti cymwys i greu gwefan broffesiynol sy'n bodloni'r rhan fwyaf o ofynion allweddol y senario</li> <li>• trefnu ei le gwaith yn drylwyr gyda ffolderi, ffeiliau a dogfennau wedi'u cadw'n gywir gan ddefnyddio confensiwn enwi priodol</li> <li>• cynnal log datblygu clir sy'n dogfennu: <ul style="list-style-type: none"> <li>• ei fod wedi cael adborth gan ddefnyddwyr prawf ac wedi ymateb iddo er mwyn datblygu'r rhan fwyaf o'r dyluniadau ymhellach</li> <li>• y rhan fwyaf o'r broses ddylunio.</li> </ul> </li> </ul>	
<b>2</b>	<p style="text-align: center;"><b>4-6 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn ffordd sylfaenol er mwyn cynllunio cynhyrchion digidol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• creu dyluniadau nad ydynt yn ddigon manwl o bosibl, ond a fyddai'n galluogi trydydd parti cymwys i greu gwefan a fyddai'n bodloni rhai o ofynion y senario</li> <li>• trefnu ei le gwaith gyda ffolderi, ffeiliau a dogfennau wedi'u cadw'n gywir</li> <li>• cynnal log datblygu sy'n dogfennu: <ul style="list-style-type: none"> <li>• ei fod wedi cael adborth gan ddefnyddwyr prawf ac wedi ymateb iddo</li> <li>• rhywfaint o'r broses ddylunio.</li> </ul> </li> </ul>	

<b>Band</b>	<b>AA3:</b> <i>Cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth er mwyn adnabod anghenion y gynulleidfa a chynllunio cynhyrchion a chyfathrebiadau digidol sy'n bodloni'r anghenion hyn</i>
<b>1</b>	<p style="text-align: center;"><b>Rhowch 1–3 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn ffordd gyfyngedig er mwyn cynllunio cynhyrchion digidol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• creu rhai dyluniadau sy'n rhoi darlun anghyflawn o bob un o dudalennau'r wefan</li> <li>• trefnu ei le gwaith mewn ffordd syml</li> <li>• cynnal log datblygu syml sy'n dogfennu: <ul style="list-style-type: none"> <li>• ei fod wedi cael rhywfaint o adborth</li> <li>• fawr ddim o'r broses ddylunio.</li> </ul> </li> </ul>
	<p style="text-align: center;"><b>0 marc</b></p> <p>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</p>

<b>(c) Cynllunio – animeiddiad neu gêm (2.2.3)</b>		<b>[7 marc]</b>
<b>Band</b>	<b>AA3:</b> <i>Cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth er mwyn adnabod anghenion y gynulleidfa a chynllunio cynhyrchion a chyfathrebiadau digidol sy'n bodloni'r anghenion hyn</i>	
<b>3</b>	<p style="text-align: center;"><b>6-7 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn dda iawn er mwyn cynllunio cynhyrchion digidol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• creu dyluniadau da iawn a fyddai'n galluogi trydydd parti cymwys i greu animeiddiad neu gêm sy'n bodloni holl ofynion allweddol y senario</li> <li>• cynnal log datblygu clir sy'n dogfennu: <ul style="list-style-type: none"> <li>• ei fod wedi cael adborth gan ddefnyddwyr prawf ac wedi ymateb iddo er mwyn datblygu'r dyluniadau ymhellach</li> <li>• y broses ddylunio gyflawn.</li> </ul> </li> </ul>	
<b>2</b>	<p style="text-align: center;"><b>3-5 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn dda er mwyn cynllunio cynhyrchion digidol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• creu dyluniadau da, nad ydynt yn ddigon manwl o bosibl, ond a fyddai'n galluogi trydydd parti cymwys i greu animeiddiad neu gêm a fyddai'n bodloni rhai o ofynion y senario</li> <li>• cynnal log datblygu clir ar y cyfan sy'n dogfennu: <ul style="list-style-type: none"> <li>• ei fod wedi cael adborth gan ddefnyddwyr prawf ac wedi ymateb iddo</li> <li>• rhywfaint o'r broses ddylunio.</li> </ul> </li> </ul>	
<b>1</b>	<p style="text-align: center;"><b>1-2 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn ffordd sylfaenol er mwyn cynllunio cynhyrchion digidol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• creu dyluniadau sylfaenol sy'n rhoi darlun anghyflawn o bob un o olygfeydd/haenau'r animeiddiad/gêm</li> <li>• cynnal log datblygu sylfaenol sy'n dogfennu: <ul style="list-style-type: none"> <li>• ei fod wedi cael rhywfaint o adborth</li> <li>• fawr ddim o'r broses ddylunio.</li> </ul> </li> </ul>	
	<p style="text-align: center;"><b>0 marc</b></p> <p>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</p>	

<b>(ch) Datblygu cynhyrchion digidol – asedau (2.2.3)</b>		[10 marc]
<b>Band</b>	<b>AA4:</b> <i>Datblygu, profi a gwerthuso cynhyrchion digidol sy'n bodloni anghenion cynulleidfaoedd penodol</i>	
	<b>9-10 marc</b>	
<b>4</b>	<p>Mae'r ymgeisydd wedi datblygu cynhyrchion digidol yn ardderchog drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• casglu a pharatoi amrywiaeth o gynnwys, sydd i gyd o ansawdd ardderchog ac yn cyfateb yn dda i'r pwrpas a fwriadwyd</li> <li>• cynnal log asedau sy'n dangos tystiolaeth glir a manwl o'r holl asedau a grëwyd, yr adnoddau a ddefnyddiwyd, y problemau a gafwyd a'r datrysiadau.</li> </ul>	
	<b>6-8 marc</b>	
<b>3</b>	<p>Mae'r ymgeisydd wedi datblygu cynhyrchion digidol yn dda drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• casglu a pharatoi amrywiaeth o gynnwys, sydd i gyd o ansawdd da ac yn cyfateb yn dda ar y cyfan i'r pwrpas a fwriadwyd</li> <li>• cynnal log asedau sy'n dangos tystiolaeth fanwl o'r holl asedau a ddefnyddiwyd yn ei gynhyrchion digidol, yr adnoddau a ddefnyddiwyd, y problemau a gafwyd a'r datrysiadau.</li> </ul>	
	<b>3-5 marc</b>	
<b>2</b>	<p>Mae'r ymgeisydd wedi datblygu cynhyrchion digidol mewn ffordd sylfaenol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• casglu a pharatoi amrywiaeth o gynnwys, y mae'r rhan fwyaf ohono yn cyfateb yn rhannol i'r pwrpas a fwriadwyd</li> <li>• cynnal log asedau sy'n dangos tystiolaeth o'r rhan fwyaf o'r asedau a ddefnyddiwyd yn ei gynhyrchion digidol, yr adnoddau a ddefnyddiwyd, y problemau a gafwyd a'r datrysiadau.</li> </ul>	
	<b>1-2 marc</b>	
<b>1</b>	<p>Mae'r ymgeisydd wedi datblygu cynhyrchion digidol mewn ffordd gyfyngedig drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• casglu a pharatoi rhywfaint o gynnwys sy'n addas i'r pwrpas a fwriadwyd</li> <li>• cynnal log asedau sy'n dangos tystiolaeth gyfyngedig o'r asedau a ddefnyddiwyd yn ei gynhyrchion digidol, yr adnoddau a ddefnyddiwyd, y problemau a gafwyd a'r datrysiadau.</li> </ul>	
	<b>0 marc</b>	
	Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

<b>(d) Datblygu cynhyrchion digidol – gwefan (2.2.4)</b>		[15 marc]
<b>Band</b>	<b>AA4:</b> <i>Datblygu, profi a gwerthuso cynhyrchion digidol sy'n bodloni anghenion cynulleidfa oedd penodol</i>	
<b>4</b>	<p style="text-align: center;"><b>13-15 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi datblygu cynhyrchion digidol yn ardderchog drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio meddalwedd datblygu'r we i greu gwefan broffesiynol sy'n bodloni gofynion y senario yn llawn</li> <li>• gwerthuso adborth a gafwyd drwy gydol y broses ddatblygu yn feirniadol er mwyn canfod safbwyntiau a theimladau yng nghyd-destun y gynulleidfa darged, a gwneud newidiadau lle y bo'n briodol</li> <li>• cynnal log datblygu clir a manwl sy'n dogfennu'n drylwyr sut y cafodd y dyluniadau eu defnyddio, y rhan fwyaf o'r materion, y problemau, y rhwystrau a'r datrysiadau.</li> </ul>	
<b>3</b>	<p style="text-align: center;"><b>9-12 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi datblygu cynhyrchion digidol yn dda drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio meddalwedd datblygu'r we i greu gwefan sy'n bodloni'r rhan fwyaf o ofynion y senario</li> <li>• gwerthuso adborth a gafwyd yn ystod y broses ddatblygu er mwyn canfod safbwyntiau a theimladau yng nghyd-destun y gynulleidfa darged, a gwneud newidiadau lle y bo'n briodol</li> <li>• cynnal log datblygu clir sy'n dogfennu sut y cafodd y dyluniadau eu defnyddio, y rhan fwyaf o'r materion, y problemau, y rhwystrau a'r datrysiadau.</li> </ul>	
<b>2</b>	<p style="text-align: center;"><b>5-8 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi datblygu cynhyrchion digidol mewn ffordd sylfaenol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio meddalwedd datblygu'r we i greu gwefan sylfaenol sy'n bodloni rhai o ofynion y senario</li> <li>• gwerthuso adborth a gafwyd yn ystod rhywfaint o'r broses ddatblygu er mwyn canfod safbwyntiau a/neu deimladau yng nghyd-destun y gynulleidfa darged, a gwneud rhai newidiadau</li> <li>• cynnal log datblygu clir ar y cyfan sy'n dogfennu sut y cafodd y dyluniadau eu defnyddio, rhai o'r materion, y problemau, y rhwystrau a'r datrysiadau.</li> </ul>	
<b>1</b>	<p style="text-align: center;"><b>1-4 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi datblygu cynhyrchion digidol mewn ffordd gyfyngedig drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio meddalwedd datblygu'r we i greu gwefan gyfyngedig sy'n galluogi defnyddiwr i gael gafael ar rywfaint o'r cynnwys</li> <li>• cael rhywfaint o adborth</li> <li>• cyflwyno gwybodaeth gyfyngedig am y ffordd y cafodd y dyluniadau eu defnyddio a disgrifio rhywfaint o'r broses ddatblygu.</li> </ul>	
	<p style="text-align: center;"><b>0 marc</b></p> <p>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</p>	

<b>(dd) Datblygu cynhyrchion digidol – animeiddiad neu gêm (2.2.4)</b>		[15 marc]
<b>Band</b>	<b>AA4:</b> <i>Datblygu, profi a gwerthuso cynhyrchion digidol sy'n bodloni anghenion cynulleidfaoedd penodol</i>	
	<b>13-15 marc</b>	
<b>4</b>	<p>Mae'r ymgeisydd wedi datblygu cynhyrchion digidol yn ardderchog drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• creu animeiddiad neu gêm ardderchog sy'n bodloni gofynion y senario yn llawn</li> <li>• gwerthuso adborth a gafwyd drwy gydol y broses ddatblygu yn feirniadol er mwyn canfod safbwyntiau a theimladau yng nghyd-destun y gynulleidfa darged</li> <li>• gwneud newidiadau priodol yn seiliedig ar yr adborth hwn, gan arwain at animeiddiad neu gêm sy'n llawn gwybodaeth ac yn cynnal diddordeb y gynulleidfa darged yn effeithiol iawn</li> <li>• cynnal log datblygu clir a manwl sy'n dogfennu sut y cafodd y dyluniadau eu defnyddio, y rhan fwyaf o'r materion, y problemau, y rhwystrau a'r datrysiadau.</li> </ul>	
	<b>9-12 marc</b>	
<b>3</b>	<p>Mae'r ymgeisydd wedi datblygu cynhyrchion digidol yn dda drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• creu animeiddiad neu gêm sy'n bodloni'r rhan fwyaf o ofynion y senario</li> <li>• gwerthuso adborth a gafwyd yn ystod y broses ddatblygu er mwyn canfod safbwyntiau a theimladau yng nghyd-destun y gynulleidfa darged</li> <li>• gwneud newidiadau priodol yn seiliedig ar yr adborth hwn, gan arwain at animeiddiad neu gêm sy'n llawn gwybodaeth a/neu'n cynnal diddordeb y gynulleidfa darged yn effeithiol</li> <li>• cynnal log datblygu clir sy'n dogfennu sut y cafodd y dyluniadau eu defnyddio, y rhan fwyaf o'r materion, y problemau, y rhwystrau a'r datrysiadau.</li> </ul>	
	<b>5-8 marc</b>	
<b>2</b>	<p>Mae'r ymgeisydd wedi datblygu cynhyrchion digidol mewn ffordd sylfaenol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• creu animeiddiad neu gêm sy'n bodloni rhai o ofynion y senario</li> <li>• gwerthuso adborth a gafwyd yn ystod rhywfaint o'r broses ddatblygu er mwyn canfod safbwyntiau a/neu deimladau yng nghyd-destun y gynulleidfa darged</li> <li>• gwneud newidiadau yn seiliedig ar yr adborth hwn, gan arwain at animeiddiad neu gêm sy'n ddiddorol i'r gynulleidfa darged</li> <li>• cynnal log datblygu clir ar y cyfan sy'n dogfennu sut y cafodd y dyluniadau eu defnyddio, rhai o'r materion, y problemau, y rhwystrau a'r datrysiadau.</li> </ul>	
	<b>1-4 marc</b>	
<b>1</b>	<p>Mae'r ymgeisydd wedi datblygu cynhyrchion digidol mewn ffordd gyfyngedig drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• creu animeiddiad fframiau allweddol neu gêm un haen</li> <li>• cael rhywfaint o adborth</li> <li>• cyflwyno gwybodaeth gyfyngedig am y ffordd y cafodd y dyluniadau eu defnyddio a disgrifio rhywfaint o'r broses ddatblygu.</li> </ul>	
	<b>0 marc</b>	
	Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

<b>(e) Profi cynhyrchion gorffenedig (2.2.5)</b>		<b>[5 marc]</b>
<b>Band</b>	<b>AA4:</b> <i>Datblygu, profi a gwerthuso cynhyrchion digidol sy'n bodloni anghenion cynulleidfaoedd penodol</i>	
<b>3</b>	<p style="text-align: center;"><b>5 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi profi cynhyrchion digidol yn dda iawn drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• llunio cynllun cynhwysfawr i brofi ymarferoldeb y cynhyrchion</li> <li>• dilyn y cynllun profi mewn ffordd resymegol a systematig i brofi'r cynhyrchion</li> <li>• cyflwyno'r holl ganlyniadau profi gyda sylwebaeth fanwl a hyddysg</li> <li>• cael gwared ar bob gwall a byg fel nad oes gwallau na bygiau yn y cynhyrchion terfynol.</li> </ul>	
<b>2</b>	<p style="text-align: center;"><b>3-4 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi profi cynhyrchion digidol yn dda drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• llunio cynllun i brofi ymarferoldeb y cynhyrchion</li> <li>• dilyn y cynllun profi i gynnal profion ar y cynhyrchion</li> <li>• cyflwyno'r rhan fwyaf o'r canlyniadau profi gyda sylwebaeth addas</li> <li>• cael gwared ar y rhan fwyaf o'r gwallau a'r bygiau er mwyn sicrhau ar y cyfan nad oes gwallau na bygiau yn y cynhyrchion terfynol.</li> </ul>	
<b>1</b>	<p style="text-align: center;"><b>1-2 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi profi cynhyrchion digidol mewn ffordd sylfaenol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynnal profion gyda rhywfaint o sylwebaeth</li> <li>• creu cynhyrchion a all gynnwys gwallau a bygiau.</li> </ul>	
	<p style="text-align: center;"><b>0 marc</b></p> <p style="text-align: center;">Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</p>	



<b>(f) Gwerthuso cynhyrchion gorffenedig (2.2.5)</b>		[5 marc]
<b>Band</b>	<b>AA4:</b> <i>Datblygu, profi a gwerthuso cynhyrchion digidol sy'n bodloni anghenion cynulleidfaeodd penodol</i>	
<b>3</b>	<p style="text-align: center;"><b>5 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi gwerthuso cynhyrchion digidol yn dda iawn drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ystyried adborth yn drylwyr yng nghyd-destun y gynulleidfa darged er mwyn gwerthuso'n feirniadol ac yn wrthrychol i ba raddau y mae'r cynhyrchion digidol terfynol yn cyflawni nodau ac amcanion y senario</li> <li>• nodi'r potensial am amrywiaeth o welliannau pellach yn glir, gydag awgrymiadau ar gyfer eu cyflawni.</li> </ul>	
<b>2</b>	<p style="text-align: center;"><b>3-4 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi gwerthuso cynhyrchion digidol yn dda drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ystyried adborth yng nghyd-destun y gynulleidfa darged er mwyn gwerthuso i ba raddau y mae'r cynhyrchion digidol terfynol yn cyflawni nodau ac amcanion y senario</li> <li>• nodi'r potensial am rai gwelliannau pellach, gydag awgrymiadau ar gyfer eu cyflawni.</li> </ul>	
<b>1</b>	<p style="text-align: center;"><b>1-2 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi gwerthuso cynhyrchion digidol mewn ffordd sylfaenol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyflwyno sylwadau am y ffordd y mae'r cynnyrch terfynol yn bodloni rhai o ofynion y senario</li> <li>• cynnwys adborth.</li> </ul>	
	<p style="text-align: center;"><b>0 marc</b></p> <p>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</p>	

## Mapio Uned 2 Asesiad Di-arholiad i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu

Meini prawf asesu	Cynnwys y fanyleb (prif ffocws)					Dyraniad marciau				
	Adran					Cyfanswm y Marciau	Marciau AA1	Marciau AA2	Marciau AA3	Marciau AA4
	2.2.1	2.2.2	2.2.3	2.2.4	2.2.5					
(a)	✓	✓				12	0	0	12	0
(b)			✓			11	0	0	11	0
(c)			✓			7	0	0	7	0
(ch)			✓			10	0	0	0	10
(d)				✓		15	0	0	0	15
(dd)				✓		15	0	0	0	15
(e)					✓	5	0	0	0	5
(f)					✓	5	0	0	0	5
<b>Cyfanswm marciau</b>						<b>80</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>30</b>	<b>50</b>

## Gridiau Asesu ar gyfer Uned 3

## Adran A

<b>(a) Ffuriau o gyfathrebiadau marchnata ar-lein (2.3.1)</b>		[9 marc]
<b>Band</b>	<b>AA2: Cymhwysu gwybodaeth a dealltwriaeth o systemau technoleg ddigidol mewn amrywiaeth o gyd-destunau</b>	
	<b>8-9 marc</b>	
<b>4</b>	<p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o systemau technoleg ddigidol yn ardderchog er mwyn esbonio'r canlynol yn glir:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• pwysigrwydd ystyried demograffeg llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol yn llawn</li> <li>• amrywiaeth o ffurfiau o farchnata digidol, sy'n briodol i bob grŵp demograffig, gan ystyried cydlynu a thargedu yn llawn</li> <li>• priodoleddau a nodweddion amrywiaeth o lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol, gan ddangos dealltwriaeth dechnegol ardderchog o bob un ohonynt.</li> </ul> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno ei holl waith yn y modd penodedig.</p>	
	<b>6-7 marc</b>	
<b>3</b>	<p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o systemau technoleg ddigidol yn dda er mwyn esbonio'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• pwysigrwydd ystyried demograffeg llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol</li> <li>• amrywiaeth o ffurfiau o farchnata digidol, sy'n briodol i'r rhan fwyaf o'r grwpiau demograffig, gan roi rhywfaint o ystyriaeth i gydlynu a/neu dargedu</li> <li>• priodoleddau a nodweddion amrywiaeth o lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol, gan ddangos dealltwriaeth dechnegol dda o bob un ohonynt.</li> </ul> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o'i waith yn y modd penodedig.</p>	
	<b>3-5 marc</b>	
<b>2</b>	<p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o systemau technoleg ddigidol mewn ffordd sylfaenol er mwyn esbonio'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod gan lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol grwpiau demograffig gwahanol</li> <li>• rhai ffurfiau o farchnata digidol, sy'n briodol i rai grwpiau demograffig, gan roi ystyriaeth i gydlynu a/neu dargedu mewn ffordd sylfaenol</li> <li>• priodoleddau a nodweddion rhai o lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol, gan ddangos dealltwriaeth dechnegol sylfaenol.</li> </ul> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o'i waith mewn modd priodol.</p>	
	<b>1-2 marc</b>	
<b>1</b>	<p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o systemau technoleg ddigidol mewn ffordd gyfyngedig mewn ymgais i esbonio'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod gan lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol grŵp demograffig</li> <li>• un neu ddau ffurf o farchnata digidol</li> <li>• priodoleddau neu nodweddion un neu ddau o lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol.</li> </ul> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno rhywfaint o'i waith mewn modd priodol ar y cyfan.</p>	
	<b>0 marc</b>	
	Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.	

<b>(b) Effaith cyfathrebiadau marchnata ar-lein (2.3.2)</b>		[6 marc]
<b>Band</b>	<b>AA2:</b> <i>Cymhwysu gwybodaeth a dealltwriaeth o systemau technoleg ddigidol mewn amrywiaeth o gyd-destunau</i>	
<b>3</b>	<p style="text-align: center;"><b>5-6 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwysu gwybodaeth a dealltwriaeth o systemau technoleg ddigidol yn dda iawn er mwyn esbonio'r canlynol yn glir:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• amrywiaeth o fanteision a chyfleoedd a gynigir gan gyfathrebiadau marchnata ar-lein</li> <li>• y risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â chyfathrebiadau marchnata ar-lein gyda dealltwriaeth hyderus o'r ffordd y gall y rhain fod yn berthnasol i'r senario dan sylw.</li> </ul>	
<b>2</b>	<p style="text-align: center;"><b>3-4 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwysu gwybodaeth a dealltwriaeth o systemau technoleg ddigidol yn dda er mwyn esbonio'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• rhai manteision a chyfleoedd a gynigir gan gyfathrebiadau marchnata ar-lein</li> <li>• rhai o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyfathrebiadau marchnata ar-lein gyda dealltwriaeth sicr ar y cyfan o'r ffordd y gall y rhain fod yn berthnasol i'r senario dan sylw.</li> </ul>	
<b>1</b>	<p style="text-align: center;"><b>1-2 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwysu gwybodaeth a dealltwriaeth o systemau technoleg ddigidol mewn ffordd sylfaenol er mwyn esbonio'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• rhai o'r manteision neu gyfleoedd a gynigir gan gyfathrebiadau marchnata ar-lein</li> <li>• rhai risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chyfathrebiadau marchnata ar-lein gyda rhywfaint o ddealltwriaeth o'r ffordd y gall y rhain fod yn berthnasol i'r senario dan sylw.</li> </ul>	
	<p style="text-align: center;"><b>0 marc</b></p> <p>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</p>	

## Adran B

<b>(c) Cynllunio cyfathrebiadau digidol – dadansoddi anghenion y gynulleidfa (2.3.4)</b> [6 marc]	
<b>Band</b>	<b>AA3:</b> <i>Cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth er mwyn adnabod anghenion y gynulleidfa a chynllunio cynhyrchion a chyfathrebiadau digidol sy'n bodloni'r anghenion hyn</i>
<b>3</b>	<p style="text-align: center;"><b>5-6 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn dda iawn er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● cwblhau dadansoddiad beirniadol a gwrthrychol o'r senario dan sylw, gan adnabod cyfleoedd ac amcanion</li> <li>● pennu strategaeth gyfathrebu sydd wedi'i diffinio'n glir ar gyfer marchnata digidol ar-lein.</li> </ul>
<b>2</b>	<p style="text-align: center;"><b>3-4 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn dda er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● cwblhau dadansoddiad gwrthrychol ar y cyfan o'r senario dan sylw, gan adnabod cyfleoedd a/neu amcanion</li> <li>● pennu strategaeth gyfathrebu sydd wedi'i diffinio'n dda ar y cyfan ar gyfer cyfathrebiadau marchnata digidol ar-lein.</li> </ul>
<b>1</b>	<p style="text-align: center;"><b>1-2 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn ffordd sylfaenol er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● cwblhau dadansoddiad amlinellol o'r senario dan sylw, gan adnabod cyfleoedd neu amcanion</li> <li>● pennu strategaeth gyfathrebu sylfaenol ar gyfer cyfathrebiadau marchnata digidol ar-lein.</li> </ul>
	<p style="text-align: center;"><b>0 marc</b></p> <p>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</p>

<b>(ch) Cynllunio cyfathrebiadau digidol – cynllunio ased digidol (2.3.4)</b>		<b>[9 marc]</b>
<b>Band</b>	<b>AA3:</b> <i>Cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth er mwyn adnabod anghenion y gynulleidfa a chynllunio cynhyrchion a chyfathrebiadau digidol sy'n bodloni'r anghenion hyn</i>	
<b>4</b>	<p align="center"><b>8-9 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn ardderchog er mwyn llunio cyfres fanwl a pherthnasol o feini prawf llwyddiant mesuradwy ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yr ased ar gyfer y cyfryngau digidol o ran pwrpas, cynulleidfa darged/grŵp demograffig targed ac arddull tŷ</li> <li>• llunio ymgyrch farchnata ardderchog.</li> </ul>	
<b>3</b>	<p align="center"><b>6-7 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn dda er mwyn llunio cyfres berthnasol o feini prawf llwyddiant mesuradwy ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yr ased ar gyfer y cyfryngau digidol o ran pwrpas, cynulleidfa darged/grŵp demograffig targed a/neu arddull tŷ</li> <li>• llunio ymgyrch farchnata dda.</li> </ul>	
<b>2</b>	<p align="center"><b>3-5 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn ffordd sylfaenol er mwyn llunio cyfres berthnasol ar y cyfan o feini prawf llwyddiant ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yr ased ar gyfer y cyfryngau digidol o ran pwrpas, cynulleidfa darged/grŵp demograffig targed neu arddull tŷ</li> <li>• llunio ymgyrch farchnata sylfaenol.</li> </ul>	
<b>1</b>	<p align="center"><b>1-2 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn ffordd gyfyngedig er mwyn llunio cyfres gyfyngedig o feini prawf llwyddiant ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yr ased ar gyfer y cyfryngau digidol mewn perthynas â'i bwrpas, y gynulleidfa darged/grŵp demograffig targed neu'r arddull tŷ</li> <li>• llunio ymgyrch farchnata gyfyngedig.</li> </ul>	
	<p align="center"><b>0 marc</b></p> <p align="center">Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</p>	

## Adran C

<b>(d) Creu asedau digidol (2.3.3)</b>		[25 marc]
<b>Band</b>	<b>AA4:</b> <i>Datblygu, profi a gwerthuso cynhyrchion digidol sy'n bodloni anghenion cynulleidfaedd penodol</i>	
<b>5</b>	<p align="center"><b>21-25 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi defnyddio'r canlynol mewn ffordd ardderchog a hynod briodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y cyfryngau dan sylw</li> <li>• llinellau amser lluosog</li> <li>• haenu (layering)</li> <li>• effeithiau</li> <li>• testun</li> <li>• opsiynau allforio</li> </ul> <p>i greu ased digidol o ansawdd ardderchog sy'n amlwg yn addas ar gyfer y grŵp demograffig targed a'r pwrpas a fwriadwyd, ac sydd â gorffeniad sy'n agos at fod yn broffesiynol.</p>	
<b>4</b>	<p align="center"><b>16-20 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi defnyddio'r canlynol yn dda ac yn briodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y cyfryngau dan sylw</li> <li>• llinellau amser lluosog</li> <li>• haenu (layering)</li> <li>• effeithiau</li> <li>• testun</li> <li>• opsiynau allforio</li> </ul> <p>i greu ased digidol o ansawdd da sy'n addas ar gyfer y grŵp demograffig targed a'r pwrpas a fwriadwyd.</p>	
<b>3</b>	<p align="center"><b>11-15 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi defnyddio'r canlynol yn foddhaol ac yn briodol ar y cyfan:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y cyfryngau dan sylw</li> <li>• llinellau amser lluosog</li> <li>• haenu (layering)</li> <li>• effeithiau</li> <li>• testun</li> <li>• opsiynau allforio</li> </ul> <p>i greu ased digidol sy'n addas ar y cyfan ar gyfer y grŵp demograffig targed a'r pwrpas a fwriadwyd.</p>	
<b>2</b>	<p align="center"><b>6-10 marc:</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi defnyddio'r rhan fwyaf o'r canlynol mewn ffordd sylfaenol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y cyfryngau dan sylw</li> <li>• llinellau amser lluosog</li> <li>• haenu (layering)</li> <li>• effeithiau</li> <li>• testun</li> <li>• opsiynau allforio</li> </ul> <p>i greu ased digidol sylfaenol sy'n addas yn rhannol ar gyfer y grŵp demograffig targed a/neu'r pwrpas a fwriadwyd.</p>	

<b>Band</b>	<b>AA4:</b> <i>Datblygu, profi a gwerthuso cynhyrchion digidol sy'n bodloni anghenion cynulleidfaoedd penodol</i>
<b>1</b>	<p style="text-align: center;"><b>1-5 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi defnyddio rhai o'r canlynol mewn ffordd gyfyngedig:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>● y cyfryngau dan sylw</li><li>● llinellau amser lluosog</li><li>● haenu (layering)</li><li>● effeithiau</li><li>● testun</li><li>● opsiynau allforio</li></ul> <p>i greu ased digidol syml.</p>
	<p style="text-align: center;"><b>0 marc</b></p> <p style="text-align: center;">Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</p>



## Adran Ch

<b>(dd) Gwerthuso asedau digidol (2.3.3)</b>		[5 marc]
<b>Band</b>	<b>AA4:</b> <i>Datblygu, profi a gwerthuso cynhyrchion digidol sy'n bodloni anghenion cynulleidfaoedd penodol</i>	
<b>3</b>	<p style="text-align: center;"><b>5 marc:</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi gwerthuso ei ased digidol yn dda iawn drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwerthuso'n wrthrychol i ba raddau y mae'r ased digidol terfynol yn cefnogi'r strategaeth cyfathrebu digidol a fwriadwyd</li> <li>• nodi'r potensial ar gyfer amrywiaeth o welliannau pellach yn glir</li> <li>• creu log mireinio sy'n dangos y cafodd tasgau eu cyflawni mewn trefn resymegol a phriodol.</li> </ul>	
<b>2</b>	<p style="text-align: center;"><b>3-4 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi gwerthuso ei ased digidol yn dda drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwerthuso i ba raddau y mae'r ased digidol terfynol yn cefnogi'r strategaeth cyfathrebu digidol a fwriadwyd</li> <li>• nodi'r potensial ar gyfer gwelliannau pellach</li> <li>• creu log mireinio sy'n dangos y cafodd tasgau eu cyflawni mewn trefn briodol ar y cyfan.</li> </ul>	
<b>1</b>	<p style="text-align: center;"><b>1-2 marc</b></p> <p>Mae'r ymgeisydd wedi gwerthuso ei ased digidol mewn ffordd sylfaenol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ystyried i ryw raddau sut mae'r ased digidol terfynol yn cefnogi'r strategaeth cyfathrebu digidol a fwriadwyd</li> <li>• awgrymu un neu ddau welliant sylfaenol</li> <li>• creu log mireinio sy'n dangos y cafodd rhai tasgau eu cyflawni mewn trefn briodol ar y cyfan.</li> </ul>	
	<p style="text-align: center;"><b>0 marc</b></p> <p style="text-align: center;">Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu does dim ymgais i ateb.</p>	

## Mapio Uned 3 Asesiad Di-arholiad i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu

Meini prawf asesu	Cynnwys y fanyleb (prif ffocws)				Cyfanswm y Marciau	Dyraniad marciau			
	Adran					Marciau AA1	Marciau AA2	Marciau AA3	Marciau AA4
	2.3.1	2.3.2	2.3.3	2.3.4					
(a)	✓				9	0	9	0	0
(b)		✓			6	0	6	0	0
(c)				✓	6	0	0	6	0
(ch)				✓	9	0	0	9	0
(d)			✓		25	0	0	0	25
(dd)			✓		5	0	0	0	5
	<b>Cyfanswm marciau</b>				<b>60</b>	<b>0</b>	<b>15</b>	<b>15</b>	<b>30</b>

## Atodiad B

# Tasgau Asesiad Di-arholiad Enghreifftiol



**TGAU Technoleg Ddigidol**

**Uned 2**

**ARFERION DIGIDOL**

**Project Ymarferol**

**Tua 45 awr**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Darllenwch y wybodaeth dros y dudalen yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn deall yr hyn y mae angen i chi ei wneud.

Mae'n bwysig eich bod yn gweithio'n annibynnol ar ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith digymorth eich hun y byddwch yn ei gyflwyno.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Bydd angen i athrawon ac ymgeiswyr lofnodi datganiad mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno.

Mae mwy o wybodaeth ynghylch asesu'r uned hon i'w gweld yn Atodiad A y fanyleb TGAU Technoleg Ddigidol.

Bydd y cyd-destunau'n cael eu cyflwyno ar ffurf tudalennau gwe i'w llwytho i lawr o wefan ddiogel CBAC.

(At bwrpas y cyflwyniad papur hwn mae pob prif bennawd, mewn testun gwyrdd ar y tudalennau canlynol, yn cynrychioli dechrau tudalen we newydd).

## Senario – annog ffordd iach o fyw

Ymgyrch genedlaethol sydd â'r nod o annog pobl ifanc i ddilyn ffordd iach o fyw yw BeFit Cymru. Mae'r trefnwyr wedi penderfynu eu bod nhw am gael gwefan tair tudalen o hyd sy'n cynnwys gêm fideo fach neu animeiddiad byr.

Gallwch chi ddewis creu gêm fideo fach neu animeiddiad byr.

Hoffai BeFit Cymru i chi ddatblygu cynhyrchion digidol wedi'u llywio gan ddata ac mae wedi cynnal arolwg i gefnogi'r broses hon. Mae angen i'r data o'r arolwg gael eu trefnu a'u dadansoddi. Drwy ddadansoddi'r data o'r arolwg, bydd modd i chi ganfod pwy yw'r gynulleidfa darged ar gyfer y wefan a'r gêm fideo fach neu'r animeiddiad byr, a rhai o'u hoffterau.

Mae'n bwysig eich bod yn trefnu ac yn dogfennu eich gwaith drwy gydol y project hwn. Bydd sawl ffeil yn cael eu rhoi i chi ynghyd â chyfarwyddiadau ar enwau'r ffeiliau a'r ffolderi lle dylech chi gadw eich gwaith. Mae'n hanfodol eich bod yn cadw'r logiau i gyd yn gyfredol gan y bydd hyn yn rhan o'ch asesiad chi.

## Trefnu a pharatoi

Rhaid i'ch gwaith chi fod wedi'i drefnu'n glir fel bod modd ei asesu'n gywir.

Drwy gydol y project, byddwch chi'n cael cyfarwyddiadau i gadw eich ffeiliau mewn ffolderi penodol, gydag enwau a fformatau penodol.

Bydd eich athro'n rhoi'r adnoddau canlynol i chi:

- fframwaith log dadansoddi
- ffeil Data1
- fframwaith log datblygu
- fframwaith log asedau.

Rhaid i chi greu:

- ffolder gwreiddyn:
  - Gwreiddyn
- is-ffolderi:
  - Tystiolaeth
  - Gwefan
- is-ffolderi o fewn y ffolder Gwefan:
  - Asedau
  - Animeiddiad **neu** Gêm.

Dylai'r ffolder **Gwefan** gynnwys:

- tudalennau HTML
- ffolder Asedau
- ffolder Animeiddiad **neu** Gêm yn cynnwys ffeil weithredadwy (yn unig).

Dylai'r ffolder **Tystiolaeth** gynnwys:

- log dadansoddi wedi'i gwblhau
- taenlen arolwg wedi'i chwblhau
- log datblygu
- log asedau
- ffolder yn cynnwys y ffeiliau a ddefnyddiwyd i greu'r animeiddiad **neu'r** gêm weithredadwy. Rhaid ei darparu mewn fformat addas.

## Uned 2 Asesiad Di-arholiad – Gofynion

### Adran A: - Holi data mewn taenlen

#### Trefnu a dadansoddeg data

[12 marc]

##### Trefnu data

Mae angen i'r data gael eu trefnu a'u glanhau gan ddefnyddio ffwythiannau. Defnyddiwch y log dadansoddi i ddangos eich cynnydd, gan ddisgrifio pa ffwythiannau rydych chi wedi'u defnyddio.

Mae'r ffeil data Data1 wedi cael ei hanfon gan y cwmni sy'n gwneud yr arolwg. Mae angen i chi fewnforio'r ffeil i mewn i daflen waith a glanhau'r data, gan sicrhau:

- nad oes cofnodion dyblyg, bylchau diangen na chelloedd gwag.
- bod mathau cywir o ddata wedi cael eu defnyddio
- bod dewisiadau wedi'u nodi'n glir mewn priflythrennau.

##### Dadansoddeg data

Nawr mae'n rhaid dadansoddi'r data er mwyn adnabod tueddiadau, y gynulleidfa a'u hanghenion.

Copiwch y data wedi'u glanhau o'r daflen waith gyntaf i mewn i daflen waith arall.

Parhewch i ddefnyddio'r **log dadansoddi** i ddangos eich cynnydd.

Mae gan BeFit Cymru rai gofynion sylfaenol. Gofynnir i chi wneud y canlynol:

- trefnu'r data yn ôl oedran mewn trefn esgynnol
- defnyddio o leiaf pum ffwythiant gwahanol i greu tabl yn dadansoddi oedran yr ymatebwyr
- dangos dadansoddiad yn ôl rhywedd
- defnyddio cynrychioliad rhifyddol gwahanol i ddadansoddi dewisiadau ar gyfer gweithgareddau newydd
- defnyddio cynrychioliad gwahanol (nad yw'n rhifyddol mewn cell) i ddadansoddi symudiadau chwaraewr yn y gêm
- llunio dwy siart addas o'ch dadansoddiad i gyfiawnhau'r dewisiadau rydych chi wedi'u gwneud yn eich log dadansoddi.

Crëwch daflen waith newydd:

- cwblhewch ddau ymchwiliad perthnasol arall gan ddefnyddio technegau datblygedig dadansoddi 'beth os' a thablau colyn
- gwnewch nodyn yn eich log dadansoddi yn esbonio:
  - yr hyn rydych chi'n ei ymchwilio
  - pa un o nodweddion y feddalwedd y byddwch chi'n ei defnyddio
  - yr hyn rydych chi wedi'i ddarganfod.

**Cadwch y Log Dadansoddi dan yr enw *Log Dadansoddi wedi'i Gwblhau* yn y ffolder Tystiolaeth. Cadwch y daenlen wedi'i chwblhau dan yr enw *Arolwg wedi'i Gwblhau* yn y ffolder Tystiolaeth.**

## Adran B: - Cynhyrchion digidol wedi'u llywio gan ddata

Rhaid i chi gwblhau Adran A – holi data mewn taenlen cyn i chi ddechrau datblygu'r wefan. Bydd angen i chi benderfynu, yn seiliedig ar y data, p'un a fyddwch chi'n datblygu animeiddiad **neu** gêm.

### Cynllunio – gwefan

[11 marc]

- Rhaid i'ch gwefan gynnwys **o leiaf tair** tudalen
- Rhaid i unrhyw ddelweddau y byddwch chi'n eu cynnwys yn y wefan gael eu dogfennu yn y Log Asedau
- Ni ddylai'r wefan gynnwys sgrolio llorweddol a rhaid iddi gynnwys nodweddion hygyrchedd
- Rhaid i'r wefan fod wedi'i threfnu'n hierarchaidd, h.y. ni ddylid gallu mynd yn uniongyrchol i bob tudalen o bob tudalen arall
- Rhaid i un dudalen gynnwys **naill ai'r** gêm **neu'r** animeiddiad
- Rhaid i un dudalen gynnwys dolenni i'r holl ddogfennau yn y ffolder Tystiolaeth.

### Dyluniadau Amlinellol ar gyfer Gwefan

Nodwch y gynulleidfa darged a ph'un a ydych yn dewis **naill ai** gêm **neu** animeiddiad yn eich **log datblygu**.

Lluniwch ddyluniadau amlinellol o'r wefan sy'n ystyried y dadansoddiad o'r data a'r adborth rydych chi wedi'i gael gan ddefnyddwyr prawf.

Cofiwch gadw eich gwaith yn rheolaidd a chadw eich **logiau datblygu** yn gyfredol.

### Dylunio Gwefan

Lluniwch ddyluniadau cynhwysfawr yn seiliedig ar y brasluniau/fframiau gwifren a ddewiswyd.

Drwy gydol y broses ddylunio, dylech chi gael adborth gan ddefnyddwyr prawf.

Cofiwch gadw eich gwaith yn rheolaidd a chadw eich **logiau datblygu** yn gyfredol.

Rhaid i chi hefyd greu dyluniadau ar gyfer **naill ai'r** animeiddiad **neu'r** gêm.

## Cynllunio – Animeiddiad

[7 marc]

- Dylai'r animeiddiad fod rhwng 20 a 30 o eiliadau o hyd
- Rhaid i'r animeiddiad gynnwys cymeriad cartŵn gwreiddiol
- Dylech gynnwys sain yn eich animeiddiad. Gallwch chi ddewis cerddoriaeth, troslais, sŵn achlysurol neu unrhyw gyfuniad o'r rhain. Rhaid i o leiaf un sain fod yn wreiddiol
- Rhaid i'r animeiddiad gynnwys golygfeydd gwahanol. Dylech allu symud rhwng y golygfeydd gwahanol hyn, e.e. rhewi, ailddirwyn, mynd ymlaen.

Dylech gynnwys byrddau stori manwl yn cynnwys amseriadau i amlinellu eich syniadau ar gyfer dylunio'r animeiddiad.

Cofiwch gadw eich gwaith yn rheolaidd a chadw eich **logiau datblygu** yn gyfredol.

## Cynllunio – Gêm

[7 marc]

- Dylai'r gêm fod wedi'i gosod mewn drysfa o'ch dewis sydd â gwahanol haenau i'w chwarae
- Rhaid i'r gêm gynnwys cymeriad gwreiddiol
- Rhaid bod amcan i'r gêm a system sgorio
- Dylai eich gêm gynnwys effeithiau sain sy'n briodol i'r hyn sy'n digwydd.

Dylech gynnwys byrddau stori manwl ar gyfer pob haen i amlinellu eich syniadau ar gyfer dylunio'r gêm.

Cofiwch gadw eich gwaith yn rheolaidd a chadw eich **logiau datblygu** yn gyfredol.

Gan ddefnyddio eich dyluniadau, gallwch nawr greu'r wefan gan gynnwys **naill ai'r gêm neu'r animeiddiad**.

Cofiwch gadw eich gwaith yn rheolaidd yn y ffolderi cywir. Cadwch eich **log asedau** a'ch **log datblygu** yn gyfredol.

## Datblygu cynhyrchion digidol – asedau

[10 marc]

Datblygwch y cynnwys ar gyfer eich gêm **neu'ch** animeiddiad yn unol â'r dyluniadau gwnaethoch chi eu creu yn gynharach. Gwnewch yn siŵr bod gennych amrywiaeth o gynnwys sy'n cyfateb i'ch pwrpas.

## Datblygu cynhyrchion digidol – gwefan

[15 marc]

Crëwch wefan broffesiynol yn unol â'ch dyluniad cynharach. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael adborth ac yn ei werthuso'n feirniadol ac yn gweithredu arno lle bo angen.

Esboniwch sut mae'r wefan yn bodloni eich meini prawf dylunio, unrhyw broblemau a gawsoch a sut y gwnaethoch chi eu goresgyn yn eich **log datblygu**.



## Datblygu cynhyrchion digidol – animeiddiad neu gêm

[15 marc]

Crëwch eich animeiddiad **neu'ch** gêm yn unol â'ch dyluniad cynharach. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael adborth ac yn ei werthuso'n feirniadol ac yn gweithredu arno lle bo angen.

Esboniwch sut mae eich animeiddiad **neu'ch** gêm yn bodloni eich meini prawf dylunio, unrhyw broblemau a gawsoch a sut y gwnaethoch chi eu goresgyn yn eich **log datblygu**.

Cyn i chi allu cyflwyno eich cynhyrchion digidol  
rhaid i chi wirio rhai pethau'n derfynol.

## Profi cynhyrchion gorffenedig

[5 marc]

Lluniwch a dilynwch gynllun profi cynhwysfawr sy'n asesu ymarferoldeb yr holl gynhyrchion digidol rydych chi wedi'u creu. Dogfennwch yr holl ganlyniadau profi gan nodi ble mae'r profion wedi llwyddo neu fethu. Dogfennwch unrhyw newidiadau rydych chi'n eu gwneud i'ch cynnyrch o ganlyniad i'r profion.

## Gwerthuso cynhyrchion gorffenedig

[5 marc]

Casglwch adborth yng nghyd-destun y gynulleidfa darged ar gyfer eich cynhyrchion digidol.

Ysgrifennwch adroddiad yn esbonio sut mae eich cynhyrchion yn cyflawni eich nodau a'ch amcanion a sut mae'r adborth gan y gynulleidfa darged yn cefnogi eich canfyddiadau, gan nodi'r potensial i wneud gwelliannau pellach yn glir.



## TGAU Technoleg Ddigidol

### Uned 3

## CYFATHREBU YN Y BYD DIGIDOL

### Ymgyrch Gyfathrebu

Tua 15 awr

### **CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Darllenwch y wybodaeth dros y dudalen yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn deall yr hyn y mae angen i chi ei wneud.

Mae'n bwysig eich bod yn gweithio'n annibynnol ar ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith digymorth eich hun y byddwch yn ei gyflwyno.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.

### **GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Bydd angen i athrawon ac ymgeiswyr lofnodi datganiad mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno.

Mae mwy o wybodaeth am asesu'r uned hon i'w gweld yn Atodiad A y fanyleb TGAU Technoleg Ddigidol.

Bydd y cyd-destunau'n cael eu cyflwyno ar ffurf tudalennau gwe i'w llwytho i lawr o wefan ddiogel CBAC.

(At bwrpas y cyflwyniad papur hwn mae pob prif bennawd, mewn testun gwyrdd ar y tudalennau canlynol, yn cynrychioli dechrau tudalen we newydd).

## Senario – recriwtio cantorion i fand

Cwmni hysbysebu sy'n arbenigo mewn marchnata digidol ar y cyfryngau cymdeithasol yw Glynbwl. Mae'r cwmni wedi gweld twf yn y defnydd o fideos ar y llwyfannau canlynol ar y cyfryngau cymdeithasol: Snapchat, Facebook, Instagram a Twitter. Hoffai'r cwmni i chi wneud y gorau o'r asedau digidol y mae wedi'u darparu i greu fideo a fydd yn hyrwyddo ei gleient newydd.

Cwmni recordiau yw cleient newydd Glynbwl a hoffai greu hysbyseb recriwtio i ddenu cantorion newydd i un o'i glyweliadau. Hoffai'r cwmni recordiau bwysleisio'r angen i fod yn berfformiwr amryddawn (all-round) yn yr hysbyseb. Mae'r cwmni recordiau am gyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl.

## Trefnu'r dasg

Rhaid i'ch gwaith fod wedi'i drefnu'n effeithiol. Drwy gydol y dasg, byddwch chi'n cael cyfarwyddiadau i gadw eich ffeiliau mewn ffolderi penodol, gydag enwau penodol ac mewn fformatau penodol. Rhaid i chi gadw log mireinio ar gyfer eich gwaith, yn nodi pob awr y byddwch chi'n ei chwblhau.

## Adran A – Cyfathrebiadau marchnata ar-lein

### Cynnig

Lluniwch ddogfen gynllunio sy'n esbonio:

- **Ffuriau o gyfathrebiadau marchnata ar-lein** **[9 marc]**
  - pwysigrwydd demograffeg (grwpiau o bobl) yn y cyfryngau cymdeithasol
  - amrywiaeth o ffurfiau gwahanol o farchnata digidol a'r cysylltiad rhyngddynt a gwahanol fathau o gyfryngau cymdeithasol
  - disgrifiad o briodoleddau a nodweddion amrywiaeth o wahanol ffurfiau o gyfryngau cymdeithasol.
  
- **Effaith cyfathrebiadau marchnata ar-lein** **[6 marc]**
  - y manteision, y cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â marchnata ar-lein yn gyffredinol, a sut mae'r rhain yn berthnasol i senario'r ymgyrch.

Gallwch ddewis unrhyw ddull i gyflwyno eich gwaith fel testun, lluniau neu graffeg wedi'u hanodi, ond nid ydych wedi'ch cyfyngu i'r rhain.

**Rhaid** cadw'r gwaith hwn mewn ffeil PDF o'r enw ***Marchnata\_Ar-lein.pdf*** mewn ffolder o'r enw ***Cynllunio***.

## Adran B – Cynllunio asedau digidol

Gan gyfeirio at eich gwaith yn eich ffeil Marchnata Ar-lein, ***Marchnata\_Ar-lein.pdf***, rhaid i chi nawr ysgrifennu eich cynnig ar gyfer yr ymgyrch 'Recriwtio Aelodau o Fand'.

- **Cynllunio cyfathrebiadau digidol (dadansoddi anghenion y gynulleidfa)** **[6 marc]**
  - dadansoddi'r senario benodol, nodi lle byddai eich ased digidol yn ddefnyddiol a chreu rhestr o amcanion mesuradwy ar gyfer eich ymgyrch penodol yn nhermau'r gynulleidfa y byddwch chi'n ei thargedu.

- **Cynllunio cyfathrebiadau digidol (cynllunio ased digidol)** **[9 marc]**
  - dylunio hysbyseb fideo sy'n bodloni anghenion y gynulleidfa o ddewis a'r strategaeth farchnata
  - diffinio ymgyrch farchnata sydd â phwrpas clir, cynulleidfa darged ac arddull tŷ

Gallwch ddewis unrhyw ddull i gyflwyno eich gwaith fel testun, lluniau neu graffeg wedi'u hanodi, ond nid ydych wedi'ch cyfyngu i'r rhain.

**Rhaid** cadw'r gwaith hwn mewn ffeil PDF o'r enw ***Dyluniad.pdf*** mewn ffolder o'r enw ***Cynllunio***.

## Adran C – Creu asedau digidol

### Creu asedau digidol

[25 marc]

Gan ddefnyddio meddalwedd neu apiau priodol, gwnewch hysbyseb fideo sy'n bodloni anghenion y grŵp demograffig, y strategaeth farchnata a'ch amcanion mesuradwy.

Rhaid i'r hysbyseb fideo hon fod yn unigryw a dylai gynnwys rhywfaint o ddeunydd gwreiddiol. Ond, mae'n gallu cynnwys rhai asedau sy'n bodoli'n barod e.e. cerddoriaeth, lluniau llonydd, fideo ac ati, fel y bo'n briodol.

**Rhaid** i chi gynnal log mireinio yn nodi unrhyw broblemau a gawsoch chi a sut gwnaethoch chi eu goresgyn.

**Rhaid** i chi gadw eich ffeil derfynol dan yr enw **Ased\_Digidol\_Terfynol.mp4** mewn ffolder o'r enw **Ased\_Digidol**.

**Rhaid** i chi gynnwys eich ffeiliau project mewn fformat Adobe yn yr un ffolder.

## Adran Ch – Gwerthusiad

### Gwerthuso asedau digidol

[5 marc]

**Rhaid** i'r gwerthusiad gynnwys:

- i ba raddau mae'r ased digidol yn cyflawni eich amcanion a'ch strategaeth, gan gyfeirio at eich log mireinio
- beth yw nodweddion llwyddiannus yr ased digidol
- awgrymiadau ar gyfer gwneud gwelliannau i'r ased digidol yn y dyfodol.

**Rhaid** i chi gadw eich gwerthusiad dan yr enw **Gwerthusiad.pdf** a'r log mireinio dan yr enw **Log\_Mireinio.pdf** yn y ffolder o'r enw **Ased\_Digidol**.